PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Gwybodaeth Gyffredinol

a

# Chanllawiau

i

# FYFYRWYR YMCHWIL UWCHRADDEDIG

## Medi 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein:
**https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/forms-handbooks/**

**Noder:**
Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.
Fodd bynnag, caiff y gweithdrefnau a'r rheoliadau eu diweddaru o bryd i'w gilydd.
Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag Ysgol y Graddedigion.

# Cynnwys – Gwybodaeth Gyffredinol

*Tudalen*

**Cynnwys – Gwybodaeth Gyffredinol** **2**

## Table of Contents

**RHAN UN .......... 3**
1. Cyflwyniad .......... 4
2. Y Gofrestrfa Academaidd .......... 4
3. Ysgol y Graddedigion .......... 4
4. Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd .......... 6
5. Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi (YBA) .......... 7
6. Sgiliau Astudio .......... 8
7. Eich Cefnogi Chi .......... 9
8. Myfyrwyr Rhyngwladol .......... 11
9. Gwasanaethau Gwybodaeth .......... 12
10. Llyfrgell Genedlaethol Cymru .......... 13
11. Gwasanaeth Gyrfaoedd .......... 13
12. Y Ganolfan Gerdd .......... 14
13. Chwaraeon Aber .......... 14
14 Undeb y Myfyrwyr, Aberystwyth .......... 16
Cyfeiriadau a Rhifau Ffôn Cyswllt .......... 17

**Rhan Dau .......... 18**
1. Cyflwyniad .......... 22
2. Derbyn Myfyrwyr .......... 22
3. Gofynion Presenoldeb .......... 24
4. Cofrestru ac Ymgyfarwyddo .......... 24
5. Yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau Ymchwil .......... 27
6. Datblygu Ymchwilwyr, Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy a Datblygiad Proffesiynol Parhaus .......... 28
7. Trefniadau Arolygu .......... 30
8. Cynrychiolaeth .......... 33
9. Cwynion .......... 33
10. Monitro Cynnydd .......... 33
11. Tynnu'n Ôl .......... 34
12. Y Cyfnod Ysgrifennu .......... 34
13. Estyniadau .......... 34
14. Cyflwyno, Arholi, Canlyniadau ac Apelio .......... 36
15. Cydbwysedd Rhwng Gweithio ac Astudio .......... 38
16. Dysgu a Gweithgareddau Academaidd Eraill .......... 39
17. Eiddo Deallusol, Cyhoeddi, Ymddygiad Academaidd Annerbyniol a Llên-Ladrad .......... 40
18 Moeseg ac Uniondeb .......... 41
19. Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd .......... 42
20. Myfyrwyr Anabl a Myfyrwyr a chanddynt Gyflyrau Iechyd a Chyflyrau Niwroamrywiol Cymhleth .......... 42
21. Myfyrwyr Ymchwil Rhan-Amser ac Allanol .......... 42
Y Bwrdd Arholi .......... 44
Y Trefniadau .......... 44
Y Gweithdrefnau .......... 44
Y Penderfyniad .......... 45
Atodiad 3 .......... 47

# RHAN UN

# GWYBODAETH GYFFREDINOL I UWCHRADDEDIGION YMCHWIL

Yn ystod sesiwn academaidd 2023-24 bydd Prifysgol Aberystwyth yn gweithredu system rheoli myfyrwyr ymchwil uwchraddedig ar-lein. Bydd hyn yn golygu disodli prosesau â llaw gyda llif gwaith ar-lein mewn meysydd megis monitro cynnydd, arholi, newidiadau arolygu a theitlau traethodau ymchwil, estyniadau i ddyddiadau cau a recordio cyfarfodydd. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n llawer haws i staff a myfyrwyr gwblhau'r camau hyn a bydd yn gwella ansawdd y cofnodion. Mae'r wybodaeth isod yn seiliedig ar y systemau presennol a bydd yn newid wrth i swyddogaethau newydd gael eu datblygu ar-lein. Caiff myfyrwyr a staff wybod am y datblygiadau newydd hyn wrth iddynt ddigwydd.

1. Cyflwyniad

Pwrpas y llyfryn hwn yw eich cyflwyno i'r dewis helaeth o wasanaethau sydd ar gael i'ch cynorthwyo yn ystod eich cyfnod astudio. Os oes gennych broblem academaidd, y person cyntaf i droi ato fel arfer yw eich arolygydd neu gydlynydd eich cwrs. Ond efallai y bydd rhyw fater arall yn codi o bryd i'w gilydd a allai beri pryder i chi. Mae Aberystwyth yn enwog am ei naws gyfeillgar, ac mae staff arbenigol ar gael i'ch cynghori neu i'ch cyfeirio at gymorth perthnasol o fewn y Brifysgol.

2. Y Gofrestrfa Academaidd

**www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/**

2.1 Dyma'r hyn y mae'r Gofrestrfa Academaidd yn gyfrifol amdano:

- cofrestru
- cadw Cofnodion Myfyrwyr
- trawsgrifiadau myfyrwyr ar gyfer modiwlau trwy gwrs
- cynhyrchu Tystysgrifau Graddau Terfynol
- ardystio statws myfyrwyr
- gweinyddu'r broses apelio.

2.2 Cysylltwch â'r Gofrestrfa Academaidd os oes gennych ymholiadau ynghylch:

- Cofrestru
- dyddiadau cyflwyno traethodau ymchwil neu draethodau hir
- prosesu canlyniadau asesiadau
- canlyniadau arholiad
- rheolau a rheoliadau
- tynnu'n ôl

drwy **pgsstaff@aber.ac.uk**

neu os oes angen y canlynol arnoch:

- tystysgrifau cofrestru
- llythyr cyflwyno i gyfleusterau bancio yn y DU

drwy **aocstaff@aber.ac.uk** neu gallwch archebu'n syth o'r wefan ar: https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/students/ug-issues/academic- office/certification/

2.3 Rhaid i'r holl uwchraddedigion gofrestru wrth ddechrau ar eu rhaglen astudio a chofrestru eto ym mis Medi ar ddechrau pob sesiwn academaidd tan i gyfnod y cofrestriad ddod i ben.

Bydd myfyrwyr newydd yn cael gwybod sut a phryd i gofrestru yn yr wybodaeth 'Croeso i Aberystwyth' cyn dechrau ar eu rhaglen. Ceir rhagor o wybodaeth a chyngor ar gofrestru a materion eraill gan y Swyddfa Gweinyddiaeth Myfyrwyr, gweler https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/pg-issues/

Dylech sicrhau bod yr wybodaeth ar eich cofnod myfyriwr yn cael ei diweddaru. Gallwch agor eich cofnod myfyriwr ar y we ar https://studentrecord.aber.ac.uk/cy/

3. Ysgol y Graddedigion

**www.aber.ac.uk/cy/grad-school/**

3.1 Ysgol y Graddedigion sy'n gyfrifol am Ddatblygiad Ymchwilwyr uwchraddedig drwy'r Brifysgol gyfan. Mae iddi hefyd swyddogaeth cydlynu mewn perthynas â'r canlynol: datblygu polisi ar faterion uwchraddedig; darparu cyfleusterau i uwchraddedigion; darparu hyfforddiant ymchwil cyfrwng Cymraeg; dyfarnu Ysgoloriaethau Doethurol y Brifysgol i Ddatblygu Gyrfa; goruchwylio partneriaeth y Brifysgol yng Nghanolfannau/Partneriaethau Hyfforddi Doethurol UKRI; a monitro cynnydd academaidd myfyrwyr uwchraddedig. Mae Aberystwyth yn ymrwymo i ddarparu lefel ragorol o

hyfforddiant i fyfyrwyr uwchraddedig ac mae wedi sefydlu Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr sydd ar gael i'r holl fyfyrwyr yn unol â'u gofynion hyfforddi penodol.

3.2 Mae Pennaeth a Dirprwy Benaethiaid Ysgol y Graddedigion yn gweithio ar y cyd â staff academaidd a gweinyddol ar draws y Brifysgol, a chânt gefnogaeth tîm sy'n cwmpasu pob agwedd o astudio uwchraddedig yn Aberystwyth. Mae Pwyllgor Graddau Ymchwil y Brifysgol yn goruchwylio gwaith Pwyllgorau Adrannol, Cyfadrannol a Phrifysgol sydd â chyfrifoldebau am fyfyrwyr ymchwil. Caiff y polisi ei weithredu drwy drafodaeth â Chyfarwyddwyr Astudiaethau Uwchraddedig y Cyfadrannau a'r Adrannau ac mewn ymgynghoriad â Grŵp Ymgynghorol Myfyrwyr Ymchwil y Brifysgol.

3.3 Mae'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr yn cynnwys tair elfen: y modiwlau hyfforddiant ymchwil, y gweithdai i Raddedigion, a'r gweithdai Hyfforddi Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy.

3.4 O fewn y Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr, mae'r modiwlau ymchwil blwyddyn gyntaf sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Research Skills and Personal Development
- Sgiliau Ymchwil a Datblygiad Personol
- Principles of Research Design
- Ways of Reading
- Dulliau Darllen
- Statistics in Context: Collecting, Handling and Presenting Data
- Quantitative Data Collection and Analysis
- Qualitative Data Collection and Analysis
- Manuscript Skills: Post Medieval Palaeography and Diplomatic
- Using Manuscript Sources for Medieval Studies: Palaeography, Diplomatic and Context
- Research Skills and Personal Development for Scientists
- Public Engagement and Impact
- Ways of Working
- Leadership for Researchers
- Statistics for Experimental Scientists
- Research Seminar Skills in the Life Sciences
- Grants Development Workshops
- The Research Writing programme
- Entrepreneurship
- Reading and Writing Development Group
- Skills in Bioinformatics for Biologists
- Theoretical Foundations of Research in Law and Criminology
- Philosophy and Contemporary Culture
- Writing your first Journal Asticle
- Research Seminar Skills in Physical Sciences
- Specialist Research Skills for Scientists

Mae rhagor o fanylion i'w cael ar wefan Ysgol y Graddedigion yn [https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/researcher/](https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/researcher/)

3.5 Mae Ysgolion Graddedigion blynyddol yn cwmpasu'r canlynol:

- Gweithdy Uwchraddedig Blwyddyn Un - Ymddygiad Proffesiynol: PGM9005 Moeseg, Llên-ladrad ac Ymarfer Academaidd ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil
- Gweithdy Uwchraddedig Blwyddyn Dau – y Rhaglen Ysgrifennu Ymchwil
- Gweithdy Uwchraddedig Blwyddyn Tri – Tu hwnt i'r PhD

3.6 Mae Rhaglen Ymchwilwyr Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth eang o weithdai sydd wedi'u cynllunio i helpu myfyrwyr uwchraddedig i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu gradd yn llwyddiannus a hefyd gwella eu cyflogadwyedd yn y dyfodol. Rhaglen o gyrsiau byr am ddiwrnod neu hanner diwrnod yw hon y gall myfyrwyr ddewis ymuno â hi os dymunant ar unrhyw adeg yn ystod eu hastudiaethau.

3.7 Mae Ysgol y Graddedigion hefyd yn gyfrifol am gyflwyno traethodau ymchwil ac am anfon traethodau ymchwil at yr arholwyr. Mae'r Adrannau Academaidd/Cyfadrannau yn trefnu arholiadau llafar y myfyriwr.

3.8 I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Jan Davies yn Ysgol y Graddedigion (gweler y cyfeiriadau isod).

## 4. Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

**www.aber.ac.uk/cy/hse**

4.1 Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod bod gwarchod iechyd a diogelwch ein gweithwyr, ein myfyrwyr ac eraill y mae ein gweithgareddau yn effeithio arnynt, ynghyd â gwarchod ansawdd yr amgylchedd, yn rhan hanfodol o waith y Brifysgol ac yn un o gyfrifoldebau pennaf rheolwyr ar bob lefel.

4.2 Dirprwy Is-Gangellorion y Cyfadrannau a Phenaethiaid yr Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am reoli iechyd a diogelwch yn eu Cyfadrannau neu Adrannau. Maent yn gyfrifol yn enwedig am gynllunio, gweithredu, monitro ac arolygu camau i reoli risg sy'n deillio o weithgareddau eu Cyfadrannau neu Adrannau, a sicrhau bod adnoddau angenrheidiol yn cael eu dyrannu ar gyfer hyn. I'w cynorthwyo gyda'r gwaith, gallant benodi Cydgysylltwyr Iechyd a Diogelwch a threfnu i ddyletswyddau gael eu dirprwyo ymhellach, fel sy'n briodol, yn y Gyfadran neu'r Adran.

4.3 Mae gan eich arolygydd ran allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod y gweithgareddau sy'n ymwneud â'ch gwaith yn ddiogel. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos uwchraddedigion ymchwil, gan y gallech fod yn gweithio mewn lleoedd lle mae'r risg yn uwch,
megis mewn labordy neu yn y maes. Rhaid i'ch arolygydd sicrhau bod yr holl asesiadau risg priodol wedi'u gwneud, bod systemau gweithio diogel ar waith a'ch bod yn eu deall yn llawn; hefyd, eich bod yn cael yr holl hyfforddiant angenrheidiol cyn ymgymryd ag unrhyw waith peryglus. Os ydych yn teimlo eich bod angen rhagor o gefnogaeth a hyfforddiant yna gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn am hynny!

4.4 Bydd eich arolygydd neu eich Cydlynydd Iechyd a Diogelwch yn rhoi gwybod i chi beth yw'r trefniadau brys yn lleol, ynghyd â'r trefniadau cymorth cyntaf. Os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw agwedd gofynnwch am gyngor!

4.5 Os cewch ddamwain neu os bydd rhywbeth yn digwydd mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch arolygydd neu i'r Cydlynydd Iechyd a Diogelwch (gallwch gael eu manylion oddi wrth eich Cyfadran neu'ch Adran), a rhaid i chi lenwi ffurflen cofnodi digwyddiad. Os byddwch yn torri darn o offer yn ddamweiniol neu'n canfod nam dylech roi gwybod am hyn hefyd – peidiwch â'i adael i rywun arall ei ganfod neu geisio ei drwsio eich hun.

**Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth:**

4.6.1. Byddwch bob amser, boed ar dir y Brifysgol neu'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol, yn dilyn y polisi Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd gan gyfeirio'n benodol at adran 2.10 ac yn cydymffurfio ag unrhyw reolau a chyfarwyddiadau Iechyd a Diogelwch a roddir i chi gan y Brifysgol, ei Hadrannau, neu Undeb y Myfyrwyr;

4.6.2. Ni fyddwch, heb ganiatâd yr aelod o staff sy'n gyfrifol am yr ardal neu am y gweithgaredd, yn cyflwyno unrhyw ddarn o offer i'w ddefnyddio ar dir y Brifysgol, yn newid unrhyw osodiadau parhaol neu offer cludadwy nac mewn unrhyw ffordd arall yn gweithredu mewn modd a allai achosi perygl i

aelodau'r Brifysgol neu unrhyw un arall sy'n defnyddio tir y Brifysgol;

4.6.3. Ni fyddwch, yn fwriadol nac yn ddifeddwl, yn newid nac yn tynnu ymaith hysbysiadau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, nac yn ymyrryd â neu'n camddefnyddio offer neu gyfleusterau a ddarperir gan y Brifysgol er budd gwarchod iechyd, diogelwch neu'r amgylchedd.

4.6.4 Byddwch ond yn gweithio yn yr adeiladau academaidd ar ôl gwaith arferol os oes rheswm penodol dros weithio ar amseroedd o'r fath, os yw'r gweithgaredd wedi cael ei gymeradwyo gan eich arolygydd a bod yr asesiadau risg priodol wedi'u rhoi yn eu lle ar gyfer y gwaith.

4.6.5 Ni chewch fynd i mewn i unrhyw ardaloedd anawdurdodedig, na defnyddio cyfarpar os gallent fod yn beryglus i chi, i eraill neu i'r amgylchedd, oni bai bod gennych awdurdod i wneud hynny a bod yr holl hyfforddiant a'r gwaith papur angenrheidiol wedi ei gwblhau yn briodol ac yn ddigonol.

4.7 Os oes gennych unrhyw ymholiadau na ellir eu hateb yn lleol cysylltwch â'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. E-bost: **hasstaff@aber.ac.uk**. Ffôn: **01970 622073**.

4.8 Diogelwch

Caiff adeiladau'r Brifysgol eu goruchwylio gan Staff Diogelwch sy'n gweithredu o Dderbynfa'r Campws ger y fynedfa i Gampws Penglais. Gallant roi gwybodaeth a chyngor ac ymateb i geisiadau am gymorth gan staff, myfyrwyr ac ymwelwyr.

Dylid rhoi gwybod i'r Swyddogion Diogelwch am unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch yn bersonol neu trwy ffonio'r rhifau ffôn canlynol: **estyniad 2649** / ffôn symudol **07889 596220**.

## 5. Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi (YBA)

**www.aber.ac.uk/rbi**

5.1 Lleolir yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn y Parc Gwyddoniaeth. Mae'r Adran YBA yn mynd ati i hyrwyddo ymchwil ac yn cryfhau'r diwylliant o arloesi a chyfnewid deallusrwydd sy'n bodoli ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r Adran yn cynnig nifer o wasanaethau i gynorthwyo a monitro gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ledled y Brifysgol, gyda'r nod o gynyddu gweithgareddau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth ar yr un pryd â lleihau'r baich gweinyddol i gydweithwyr academaidd ac ymchwil. Mae'r Adran yn darparu cymorth ar sail pum maes allweddol:

- Datblygu Ymchwil (gan gynnwys moeseg ymchwil ac arferion da)
  - Rhoi cymorth uniongyrchol i academyddion ac ymchwilwyr wrth baratoi a chyflwyno ceisiadau grant ymhob disgyblaeth ac ar gyfer unrhyw noddwr
  - Cynorthwyo moeseg ac uniondeb ymchwil gan gynnwys prosesau arolygu moesegol.
- Datblygu Rhyngwladol a Busnes
  - Dod ag academyddion, ymchwilwyr a busnesau ynghyd yng nghyswllt menter ac arloesi. Mynd ati i greu cyswllt â sefydliadau allanol, adnabod a chefnogi cyfleoedd i gael cyllid pontio a threfnu masnacheiddio datblygiadau newydd gan Brifysgol Aberystwyth. Hyrwyddo a chefnogi ceisiadau grant i Horizon Europe a chyllid Ffyniant Cyffredin Rhanbarthol/DU.
- Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil [FfRhY] a Monitro Ymchwil
  - Rheoli gwybodaeth ymchwil ac adrodd arni er mwyn hyrwyddo datblygiad rhagoriaeth ymchwil sy'n cael effaith.
  - Gweithio gyda Gwasanaethau Gwybodaeth i reoli agenda gyhoeddi Mynediad Agored a data ymchwil.
  - Mae'r staff FfRhY a Monitro Ymchwil hefyd yn cyfrannu at fodiwlau Hyfforddiant Ymchwil Uwchraddedig: Public Engagement and Impact (PGM1610) and Ethics, Plagiarism and Academic Practice for Research Students (PGM9005).
- Rheoli Prosiectau a Sicrhau Ansawdd Ymchwil, Busnes ac Arloesi
  - Monitro perfformiad prosiectau mawr ymchwil a menter, a rhannu arferion da wrth reoli prosiectau.
    a chyfrifeg ôl-ddyfarniad

- Contractau a Pholisïau Ymchwil, Busnes ac Arloesi
    - Adolygu, trafod a phrosesu contractau sy'n ymwneud â gweithgareddau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth ledled y Brifysgol a thrafod â phartneriaid.
- Cyllid Ymchwil yn yr Adran Gyllid:
    - Cynorthwyo YBA gyda chostau cynigion ymchwil, arloesi a chyfnewid gwybodaeth. Rheoli grantiau gyda datganiadau gwariant rheolaidd ac adroddiadau i Brif Ymchwilwyr, Cyfadrannau a rheolwyr y Brifysgol.

5.2 Mae YBA wedi datblygu Arweinlyfr Ceisiadau Grant Ymchwil sy'n tywys ymchwilwyr drwy broses gwneud cais am gyllid ymchwil Prifysgol Aberystwyth. Mae'r arweinlyfr yn rhoi gwybodaeth a dolenni defnyddiol ar gyfer e.e. dod o hyd i gyllid, datblygu cynnig ymchwil, ystyried moeseg ymchwil, costio prosiectau, rheoli prosiectau, rhannu canlyniadau/effaith ac adrodd ôl-ddyfarniad. https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/staff-students/toolkit.

5.3 Mae YBA yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys 'Sesiynau Briffio Byr' ar gyfleoedd a chynlluniau cyllido a sesiynau hyfforddi 'Arfer Da Ymchwil', sy'n agored i'r holl staff academaidd. Mae'r rhain yn cael eu cylchlythyru'n rheolaidd i bob aelod o staff academaidd a myfyrwyr uwchraddedig, yn ogystal â chael eu rhannu ar dudalen we digwyddiadau YBA https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/staff-students/staff/#upcoming-events

5.4 Os bydd arnoch angen cyngor, ar unrhyw adeg yn ystod eich ymchwil, ar faterion yn ymwneud â Hawliau Eiddo Deallusol (gan gynnwys patentau, hawlfraint, dylunio, nodau masnach, a gwybodaeth gyfrinachol), mae hyn ar gael gan YBA. Mae gwybodaeth am Bolisi Eiddo Deallusol Cyffredin Aberystwyth- Bangor i'w chael ar-lein yn: https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/staff- students/busdev-techtrans/intellectual-property/ yn ogystal â manylion cyswllt staff YBA sydd ar gael i roi cymorth a chyngor.

5.5 I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau a gynigir gan YBA ewch i **https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/**. Neu, i drefnu i siarad ag aelod o'r tîm YBA cysylltwch â **drbi@aber.ac.uk** / **01970 622385** (gweler cyfeiriadau).

6. Sgiliau Astudio

**Cymorth Iaith ac Astudio i Fyfyrwyr**

6.1 Rydym yn cynnig cymorth gydag iaith a chymorth astudio i fyfyrwyr o wledydd Prydain a myfyrwyr rhyngwladol ledled y sefydliad. Mae gan y staff gryn brofiad o weithio gyda myfyrwyr mewn amryw bynciau.

6.2 Gall myfyrwyr uwchraddedig sydd eisiau gwella eu hysgrifennu academaidd drefnu ymgynghoriadau ysgrifennu i gael cyngor unigol gan ein Cymrawd Ysgrifennu o'r Gronfa Lenyddol Frenhinol. Gellir cysylltu â hwy trwy e-bost a nodir yn y weddalen ganlynol i drefnu apwyntiad: https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/rlf/

6.3 Cynhelir gweithdai ysgrifennu yn rheolaidd fel sesiynau o fewn dosbarthiadau. Bydd y sesiynau hyn yn trafod materion megis:

- strwythuro a threfnu gwybodaeth ysgrifenedig;
- sicrhau rhuglder, cywirdeb gramadegol ac arddull addas;
- adnabod a chyfarch y gynulleidfa;
- a chyfeirnodi a chyfeirio.
- https://www.aber.ac.uk/cy/student-learning-support/postgrad/

6.4 Gall myfyrwyr sydd eisiau cymorth gyda datblygiad iaith Saesneg drefnu sesiynau tiwtorial un-i-un drwy'r Ganolfan Iaith Saesneg. I drefnu apwyntiad, cysylltwch â'r Ganolfan drwy e-bostio **tesol@aber.ac.uk** neu drwy'r wefan: **www.aber.ac.uk/ên/international-english/one-to-onelanguageconsultationsforinternationalstudents/.**

6.5 Mae manylion sut i fanteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i'w cael ar y we:

www.aber.ac.uk/cy/student-learning- support/. Mae cymorth a chyngor i'w cael hefyd i fyfyrwyr rhyngwladol sydd eisiau cymorth gyda phroblemau yn ymwneud â iaith, diwylliant neu astudio. Galwch heibio, ffoniwch neu e- bostiwch i drefnu apwyntiad.

6.5 Mae manylion sut i fanteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i'w cael ar y we: **www.aber.ac.uk/cy/student-learning- support/**.

Mae cymorth a chyngor i'w cael hefyd i fyfyrwyr rhyngwladol sydd eisiau cymorth gyda phroblemau yn ymwneud â iaith, diwylliant neu astudio. Galwch heibio, ffoniwch neu e-bostiwch i drefnu apwyntiad.

7. Eich Cefnogi Chi

Mae ein staff a'r timau yn y Gwasanaethau Myfyrwyr yn gyfeillgar ac yn hawdd troi atynt, ac maent yn cynnig pob math o gymorth arbenigol deheuig a phroffesiynol. Trwy weithio gyda chi, gallant eich helpu i ddatrys y rhan fwyaf o heriau bywyd myfyriwr. Mae'r gwasanaethau'n gyfrinachol ac yn anfarnol.

**7.1 Y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr**

Y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr yw eich siop-un-stop i gael cymorth a gwybodaeth ynghylch pob math o wasanaethau cymorth sy'n cynnwys Lles, Hygyrchedd a Chynhwysiant, Cyngor ac Arian, Cyngor Fisa ac Atal Aflonyddu a Thrais. Gallwch ffonio'r tîm ar 01970 621761 neu 01970 622087. Gallwch ebostio'r tîm ar student-support@aber.ac.uk neu ymweld â'n tudalennau gwe: https://www.aber.ac.uk/cy/studentservices/

Mwy am ein gwasanaethau:

***Gwasanaet Cyngor ac Arian***

Mae'r tîm Cyngor ac Arian yn cynnig gwybodaeth, cyngor, cymorth a gwasanaethau cyfeirio ar amryw helaeth o faterion.  Os nad ydych yn siŵr ymhle y cewch gyngor neu gymorth, cysylltwch â ni. Does dim byd sy'n rhy fawr nac yn rhy fach. Mae ein gwasanaeth yn gyfrinachol, ni fydd yn eich beirniadu ac mae'n rhad ac am ddim. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweinydd Cronfeydd Caledi'r Brifysgol

Cysylltwch â ni ar: **01970 621761/622087**
**adviceandmoney@aber.ac.uk**

***Gwasanaethau Hygyrchedd a Chynhwysiant***

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr anabl a myfyrwyr sydd â gwahaniaethau dysgu penodol. Byddem yn eich cynghori i feddwl am ofynion eich dewis gwrs, cyn gwneud cais, a nodi unrhyw elfennau a allai beri trafferthion penodol. Byddem hefyd yn argymell i chi ymweld â champws y Brifysgol a'ch dewis adran er mwyn gweld pa gymorth sydd ar gael, gweld yr adnoddau a thrafod anghenion penodol.

Mae Ymgynghorwyr Hygyrchedd Myfyrwyr y Brifysgol yn hapus i'ch cynorthwyo cyn i chi wneud cais. Mae'n bwysig i chi gysylltu â'ch adran ac â'r Ymgynghorwyr hyn mor fuan â phosibl gan y gallai gymryd peth amser i wneud addasiadau a threfnu cymorth. Rydym yn argymell hefyd i chi gysylltu â'r Ymgynghorwyr Hygyrchedd i drafod asesiad anghenion astudio ac i gael cyngor ar grantiau, er enghraifft y Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA).

Gall ein hymgynghorwyr drefnu gweithwyr cymorth i fyfyrwyr anabl cymwys, megis mentoriaid a chymorth sgiliau astudio un-i-un. Gellir gwneud addasiadau rhesymol ac asesiadau eraill ar gyfer myfyrwyr sydd â phroblemau penodol, gan gynnwys gwahaniaethu dysgu penodol, megis dyslecsia a dyspracsia.

Cysylltwch â ni ar: **01970 621761/622087**
**accessibility@aber.ac.uk**

***Cynllun Mentora 'Ffordd Hyn'***

Wedi'i leoli yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr, mae cynllun Ffordd Hyn yn cynnig cyngor cyfeillgar, cyfrinachol, un-i-un ar unrhyw agwedd ar fywyd prifysgol. Cynllun o fentora gan gymheiriaid yw Ffordd Hyn yn bennaf ar gyfer yr holl israddedigion newydd i'ch cynorthwyo i gyflawni'ch addewid, i ymgartrefu yn y brifysgol, i gynllunio am y dyfodol a gwneud y mwyaf o'ch cyfnod yn y brifysgol. Fodd bynnag, gall y Gwasanaeth hefyd ddarparu cymorth ar gyfer uwchraddedigion os oes angen.

Cysylltwch â ni ar: **01970 621761**
**signpost@aber.ac.uk**

## 7.2 Lles Myfyrwyr

Mae'r tîm Lles Myfyrwyr yn rhoi cyngor a chymorth ar bob math o faterion seicolegol ac emosiynol. Mae'r tîm Lles Myfyrwyr yn atodol i wasanaethau statudol, ond nid yw'n eu disodli, ac maent yn gweithio gyda myfyrwyr i ddod o hyd i lwybrau cymorth priodol a allai olygu cyfeirio at asiantaethau allanol.

Cysylltwch â ni ar: 01970 621761/01970 622087
**studentwellbeing@aber.ac.uk**

***Cofrestru gyda Meddyg Teulu***

Er ein bod yn gweithio'n agos â meddygfeydd lleol a gwasanaethau'r ysbyty i sicrhau eich bod yn cael gofal a sylw da os oes angen, mae'n bwysig i chi gofrestru mewn meddygfa leol ar ôl i chi gyrraedd Aberystwyth. Rydym yn argymell eich bod yn gwneud hyn erbyn 30 Medi man pellaf. Mae'n hanfodol bwysig i sicrhau parhad gofal, yn enwedig os ydych yn cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn neu driniaeth arall. Dylai myfyrwyr y Deyrnas Gyfunol ddod â'u Cardiau Meddygol GIG gyda hwy.

Mae gwybodaeth ar gofrestru mewn meddygfa i'w chael gan y meddygfeydd unigol. Cliciwch ar y ddolen i weld manylion cyswllt y meddygfeydd lleol: https://hduhb.nhs.wales/

***Gwasanaethau Deintydd***

Nid yw'r Brifysgol yn cynnig gwasanaeth deintyddol. Mae nifer o ddeintyddion i'w cael yn lleol.

***Cyswllt mewn Argyfwng a Chyswllt Dibynadwy***

Mae'n rhaid i bob myfyriwr roi manylion am unigolion y gellir cysylltu â hwy mewn argyfwng. Dim ond mewn argyfwng y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio. Ar ôl i chi ddechrau eich cyfrif myfyriwr, ychwanegwch eich manylion cyswllt mewn argyfwng at eich cofnod myfyriwr. Gwnewch yn sicr bod y sawl sy'n cael ei enwi yn ymwybodol o hynny ac wedi cytuno i roi eu manylion i'r Brifysgol yn achos argyfwng. Gofynnir ichi hefyd roi manylion Cyswllt Dibynadwy. Mae'n bosibl iawn mai'r un person fydd hwn â'ch person cyswllt mewn argyfwng, ond gall fod yn berson arall. Bydd y person yma'n rhywun y byddech yn fodlon inni gysylltu â hwy, gyda'ch caniatâd neu, dan amgylchiadau eithriadol, heb eich caniatâd, pan fydd gennym bryderon am eich diogelwch ac/neu eich lles.

***Nawdd Nos***

Gwasanaeth gwybodaeth a gwrando annibynnol ac anfarnol yw hwn sy'n cael ei drefnu gan fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr. Mae'r gwasanaeth cyfrinachol hwn ar gael rhwng 10yh a 2yb, ddydd Mawrth, Mercher a Sadwrn yn ystod y tymor yn unig, ar **01970 622166**. Mae gwasanaethau gwrando trwy ebost a negeseua gwib hefyd ar gael trwy wefan Nawdd Nos Aberystwyth http://www.nightline.aber.ac.uk/en/index.php

***Cyngor a chynrychiolaeth***

Mae Undeb y Myfyrwyr yn rhedeg Canolfan Gynghori, sy'n darparu cymorth a chynrychiolaeth annibynnol, ar faterion academaidd, lles neu ariannol, i fyfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol.

# 8. Myfyrwyr Rhyngwladol

## 8.1 Fisa a Chymorth

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am eich fisa yn ystod y broses ymgeisio, neu pan fyddwch chi wedi cofrestru fel myfyriwr, ewch i'n tudalennau ar Fisa, Cymorth a Chyngor neu cysylltwch â'r Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol (ffôn: **01970 621548**, ebost **immigrationadvice@aber.ac.uk**).

Mae croeso i chi gysylltu â'r Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol os oes gennych chi bryderon yn ystod eich cyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gall yr Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol gynnig cymorth a chyngor.

## 8.2 Cyfrifoldebau Fisa Myfyrwyr

Os oes gennych chi fisa myfyriwr, dylech nodi fod gennych chi gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r fisa hwn. Ceir manylion llawn am eich cyfrifoldebau yma: Student Visa Holders – Responsibilities : Academic Registry, Aberystwyth University

Gwnewch yn siŵr eich bod yn hysbysu eich Adran a'r Swyddfa Cydymffurfiaeth (compliance@aber.ac.uk ) os ceir unrhyw newid yn eich amgylchiadau a fydd yn effeithio ar statws eich fisa yn ystod eich amser yn y DU. Ceir gwybodaeth am yr hyn sydd angen ei adrodd yn https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/compliance-information/dddeiliaid-fisa-myfyrwyr-chyfrifoldebau/

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'ch cyfrifoldebau fisa myfyriwr, cysylltwch â'r Swyddfa Cydymffurfio drwy ebostio compliance@aber.ac.uk

## 8.3 Presenoldeb

Nodwch ei fod yn ofyniad gan y Swyddfa Gartref fod Prifysgol Aberystwyth yn monitro eich presenoldeb a'ch ymrwymiad fel myfyriwr yn ystod eich astudiaethau. Gellir gweld y gofynion presenoldeb yma https://www.aber.ac.uk/en/academic-registry/compliance-information/engagement-and-attendance-monitoring/ a bydd eich Adran hefyd yn cadarnhau ei disgwyliadau presenoldeb i chi.

Rhaid i Uwchraddedigion Ymchwil fod yn Aberystwyth yn astudio am 44 wythnos fesul blwyddyn academaidd.

Mae'n rhaid i Fyfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig fynychu cyfarfod misol gyda'u harolygydd i drafod eu cynnydd. Rydym yn deall fod rhai Myfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig yn ymgymryd â gwaith maes ac felly na fyddant o bosibl ar gael i gyfarfod â'r arolygydd bob mis. Os ydych chi'n ymgymryd â gwaith maes ac yn methu â bod yn bresennol, gwnewch yn siŵr eich bod yn hysbysu eich Adran a'r Swyddog Cydymffurfiaeth am fod angen rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref am waith maes (**compliance@aber.ac.uk**). Os caiff ei gymeradwyo, bydd eich absenoldeb yn 'absenoldeb gwaith maes'. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw cysylltiad o leiaf unwaith y mis gyda'ch Arolygydd yn ystod eich gwaith maes drwy ebost. Disgwylir y byddai'r ebost yn trafod y gwaith rydych chi'n ei wneud a lle bo'n bosibl yn atodi tystiolaeth o'r gwaith. Os na fyddwch yn gallu mynd i un o'r cyfarfodydd misol gyda'ch arolygydd am resymau eraill a bod hyn wedi ei awdurdodi caiff eich absenoldeb ei gofnodi yn 'Absenoldeb Awdurdodedig'.

Am ragor o wybodaeth am Absenoldeb Awdurdodedig i Fyfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig, gweler: https://www.aber.ac.uk/en/academic-registry/compliance-information/authorised-absence/

## 8.4 Tynnu'n ôl

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn holl weithdrefnau'r Brifysgol os ydych chi'n penderfynu tynnu'n ôl o'r brifysgol. Cysylltwch â'r Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol (immigrationadvice@aber.ac.uk), gan fod goblygiadau ar eich fisa os ydych chi'n tynnu'n ôl o'r Brifysgol. Bydd angen i chi hefyd drafod tynnu'n ôl â'ch noddwr ariannol.

## 8.5 Cofrestru

Mae'n amod gan y Swyddfa Gartref fod yr holl Fyfyrwyr Rhyngwladol yn cyflwyno pasbort dilys a fisa i Brifysgol Aberystwyth cyn iddynt allu cofrestru'n llawn.

**8.6** Os ydych chi'n ystyried newid eich cwrs astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth, cysylltwch â'r Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol a/neu'r Swyddfa Cydymffurfio cyn gwneud penderfyniad oherwydd gallai unrhyw newid yn eich cwrs gael effaith ar eich fisa.

## 9. Gwasanaethau Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth (GG) sy'n darparu gwasanaethau llyfrgell, cyfryngau a chyfrifiadurol i Brifysgol Aberystwyth. I wneud y mwyaf o'n hadnoddau byddwch angen cyfrif e-bost a cherdyn Aber.

### 9.1 Cyfrif Ebost

Gallwch roi eich cyfrif ebost Prifysgol ar waith ar-lein ychydig cyn i'ch cwrs ddechrau. Anfonir ebost atoch pan fydd eich cyfrif yn barod ar eich cyfer.

Mae eich cyfrif e-bost yn caniatáu i chi ddefnyddio:

- Eich cyfrif Office 365 Prifysgol Aberystwyth sy'n rhoi ebost, OneDrive a Teams i chi.
- Eich cofnod myfyriwr
- Cysylltu eich dyfeisiadau eich hun i rwydwaith y Brifysgol
- Adnoddau cyfrifiadura mewn llyfrgelloedd ac ystafelloedd cyfrifiaduron
- e-adnoddau, egyfnodolion ac elyfrau a gwybodaeth am eich pwnc astudio
- Blackboard, sef amgylchedd dysgu rhithwir y Brifysgol
- Eich cyfrif llyfrgell er mwyn gweld eich benthyciadau
- Meddalwedd sydd ar gael am ddim dan drwydded y Brifysgol
- ApAber

### 9.2 Cerdyn Aber

Gallwch wneud cais am gerdyn Aber cyn gynted ag y byddwch wedi rhoi eich cyfrif e-bost ar waith: **https://myaccount.aber.ac.uk/protected/newabercard/**

Os gwnewch hyn o leiaf ddeuddydd cyn cyrraedd y campws fe ddylai fod yn barod i chi ei nôl pan gyrhaeddwch. Mae eich cerdyn Aber yn cael ei ddefnyddio:

- Fel prawf eich bod yn fyfyriwr
- Yn allwedd drws i'ch llety prifysgol
- I brynu bwyd ym mwytai'r Brifysgol, ac fe fydd arian yn cael ei roi arno cyn i chi gyrraedd os ydych yn byw mewn llety arlwyo
- I fenthyca o'r llyfrgell
- I gael mynediad i'r ystafelloedd cyfrifiaduron 24 awr
- I gael mynediad i'r llyfrgell ac adeiladau eraill y Brifysgol
- I argraffu, llungopïo a sganio
- Yn gerdyn Undeb y Myfyrwyr
- Yn gerdyn Canolfan Chwaraeon

### 9.3 Gweithgareddau GG i fyfyrwyr newydd

Yn ystod Penwythnos y Croeso Mawr a'r Wythnos Ymgartrefu rydym yn darparu llawer o weithgareddau i groesawu myfyrwyr newydd ac i gyflwyno'n gwasanaethau fel y gallwch wneud y mwyaf ohonynt yn ystod eich cyfnod yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cymorth i roi eich cyfrif e-bost ar waith
- Nôl eich cardiau Aber
- Sesiynau ymgyfarwyddo â'r llyfrgell a TG
- Teithiau o amgylch y llyfrgell i gyflwyno myfyrwyr newydd i adnoddau a gwasanaethau'r llyfrgell.

Mae manylion llawn i'w gweld ar: https://www.aber.ac.uk/cy/is/help/ug/welcome/

**9.4 Adnoddau Llyfrgell**

Mae gennym ddwy lyfrgell sy'n darparu amrywiaeth o ardaloedd dysgu sy'n hyblyg ar gyfer grwpiau ac unigolion. Mae Llyfrgell Hugh Owen yng nghanol Campws Penglais ac mae ar agor 24 awr y dydd yn ystod y tymor. Cedwir casgliadau ym maes y dyniaethau, y gwyddorau bywyd, y gwyddorau cymdeithasol, addysg , astudiaethau gwledig a phynciau Cymraeg/Cymreig yma.

Mae Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol, sydd hefyd ar Gampws Penglais, yn darparu ar gyfer pynciau Ffiseg, Mathemateg a Chyfrifiadureg.

Mae'r llyfrgelloedd hefyd yn dal nifer o gasgliadau prin ac arbennig yn ogystal â chyfoeth o ddeunyddiau dysgu eraill. Mae ein deunyddiau ar-lein ar gael yn unrhyw le ar unrhyw adeg drwy gatalog y llyfrgell: **https://primo.aber.ac.uk/** ac mae cyfoeth o ddeunyddiau ar gael, yn amrywio o Amaethyddiaeth i Swoleg. Mae staff arbenigol ar gael i roi cymorth pwnc-benodol i'ch helpu i fanteisio i'r eithaf ar eich amser a'r adnoddau sydd ar gael. Gellir cysylltu â hwy drwy Teams, sgwrs ar-lein, ffonio, ebostio **https://libguides.aber.ac.uk/**

Gallwch hefyd gofrestru am aelodaeth 3 blynedd am ddim yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, sy'n cadw casgliad helaeth o gyfnodolion wedi eu hargraffu a chasgliadau arbenigol eraill, llawer ohonynt ar gael ar ffurf ddigidol.

**9.5 Ymholiadau**

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar ein tudalennau gwe:
**www.aber.ac.uk/cy/is**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mae croeso i chi gysylltu â ni: Ffôn: **01970 622400**, E-bost: **is@aber.ac.uk**

## 10. Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**https://www.llgc.org.uk/**

10.1 Mae presenoldeb Llyfrgell Genedlaethol Cymru yma yn Aberystwyth yn cyfoethogi'r cyfle i astudio'n uwchraddedig, yn enwedig gan fod y Llyfrgell y drws nesaf i gampws y Brifysgol. Fel un o'r chwe llyfrgell adnau gyfreithiol ym Mhrydain ac Iwerddon mae'r Llyfrgell yn derbyn llyfrau a chyfnodolion cyfredol, mapiau, cerddoriaeth a deunydd printiedig arall, a hefyd yn casglu deunyddiau electronig. Mae hefyd yn cadw toreth o lawysgrifau ac archifau, lluniau, ffotograffau a darluniau sy'n ymwneud â Chymru. Mae'n gartref i Archif Sgrîn a Sain Genedlaethol Cymru, sy'n cynnwys casgliad helaeth o ffilmiau, hen ffilmiau teledu a recordiadau sain sydd o ddiddordeb Cymreig. Yn eu crynswth mae adnoddau'r Llyfrgell Genedlaethol yn drysordy cenedlaethol ar gyfer ysgolheictod rhyngwladol.

10.2 Mae'r ystafelloedd darllen ar agor o 9.30yb tan 5.00yp yn ystod yr wythnos ac o 9.30yb tan 4.30yp ar ddydd Sadwrn. Mae'r Llyfrgell ar gau ar ddydd Sul, yn ystod gwyliau cyhoeddus ac ar rai dyddiau eraill yn ystod y flwyddyn. Gallwch gael mynediad i'r Llyfrgell trwy gyfrwng Tocyn Darllenydd sydd ar gael o'r Llyfrgell neu ar- lein ar https: //www.llgc.org.uk/cy/ymweld-a-ni/cyn- ymweld/tocynnau-darllen/.

Mae holl wasanaethau'r Llyfrgell bellach ar agor, ond mae'n rhaid archebu lle cyn ymweld.

10.3 Am ragor o wybodaeth cysyllter â Llyfrgell Genedlaethol Cymru (a gweler y cyfeiriadau).

## 11. Gwasanaeth Gyrfaoedd

**www.aber.ac.uk/cy/sscs/gyrfaoedd**

11.1 Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cydnabod y gall cymwysterau uwchraddedig roi mantais i'n myfyrwyr yn y farchnad swyddi ac felly rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau wedi'u teilwra i fodloni anghenion ein myfyrwyr uwchraddedig, gan gynnwys Ymgynghorydd Gyrfaoedd penodol yn Ysgol y Graddedigion, gweithdai a gweminarau datblygu gyrfa wedi'u teilwra, tudalennau penodol ar ein gwefan ac ymgynghoriadau gyrfaol un-i-un y gellir eu trefnu'n hawdd, naill yn y ganolfan

uwchraddedig neu o bell.

Hefyd, mae gan yr holl fyfyrwyr uwchraddedig fynediad llawn i'n gwasanaethau gyrfaoedd ehangach, hyd yn oed ar ôl graddio. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghoriadau gyrfaol y gallwch eu harchebu eich hun, darpariaeth galw heibio dyddiol ar gyfer ymholiadau am yrfaoedd a gwirio CV/ceisiadau, cyflwyniadau gan gyflogwyr, gweithdai a gynhelir yn ganolog ar bob agwedd ar reoli gyrfa yn effeithiol, cyfleoedd profiad gwaith pwrpasol drwy raglen AberYmlaen+, gwefan gynhwysfawr sy'n llawn adnoddau defnyddiol, a phorth swyddi gwag a digwyddiadau sy'n fodd i bob myfyriwr fanteisio ar ein hamrywiaeth o wasanaethau ar-lein - gyrfaoeddAber.

**11.2** Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cydweithio'n agos â phob adran academaidd yn cyflwyno gweithdai a gweminarau datblygu gyrfa sy'n rhan annatod o Raglen Ymchwilwyr Aberystwyth. Mae ein hymgynghoriadau gyrfa uwchraddedig un-i-un yn gyfle i'r myfyrwyr ymchwilio i'w hamcanion a'u gyrfaoedd i'r dyfodol, cael golwg gyffredinol ar sut i farchnata cymwysterau uwchraddedig i amrywiaeth o gyflogwyr, deall a chymhwyso'u hunain yn effeithiol i brosesau recriwtio penodol a manteisio ar hyfforddiant ar gyfer cyfweliadau am swyddi. Cynigir y cymorth hwn wyneb i wyneb ac ar-lein ac mae'n bosibl trefnu drwy'r ddolen hon **https://careers.aber.ac.uk/unauth**

11.3 Anogir uwchraddedigion ymchwil i gysylltu â'r gwasanaeth gyrfaoedd yn gynnar i sicrhau eu bod wedi'u harfogi'n llawn ac yn barod i gychwyn ar y cam nesaf yn eu taith yn ystod eu hamser yma ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ar ôl graddio.

**11.4** I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr ar gampws Penglais. Gallwch ymweld â'r Tîm, eu he-bostio ar gyrfaoedd@aber.ac.uk neu ffonio 01970 622378, Mar rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan: **https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/careers/**

## 12. Y Ganolfan Gerdd

Os ydych chi'n chwarae offeryn, yn canu neu'n mwynhau gwrando, edrychwch ar raglen gerddorfa, band a chorawl y Ganolfan Gerdd. Mae'r Ganolfan yn darparu cyfleusterau ymarfer ac mae gwersi unigol ar gael. Mae Ysgoloriaethau Cerdd hefyd ar gael i'r rhai sy'n canu a/neu chwarae offeryn cerddorfaol/band i safon uchel. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth **https://www.aber.ac.uk/cy/music/** neu dewch draw i siarad â ni wyneb yn wyneb.

## 13. Chwaraeon Aber

Aelodaeth y Ganolfan Chwaraeon i Uwchraddedigion
**www.aber.ac.uk/cy/sportscentre/membership**

13.1 Mae cyfleusterau dan do'r Ganolfan Chwaraeon ar brif gampws Penglais ac maent yn elfen graidd o fywyd myfyrwyr. Mae tîm y Ganolfan Chwaraeon yn gweithio'n galed i ddarparu amgylchedd diogel i fyfyrwyr weithio, ymlacio a mwynhau chwaraeon ac ymarfer corff ynddo. Mae'r naws yn hawddgar a chyfeillgar, ac mae croeso i chi ddefnyddio'r ganolfan. Ein nod yw hyrwyddo iechyd a lles drwy gyfrwng darpariaeth chwaraeon ac ymarfer corff o safon uchel sy'n rhoi gwerth am arian.

13.2 Rydym yn cynnig mynediad rhad ac am ddim ac anghyfyngedig i'r gampfa, dosbarthiadau, sbinio, nofio, sawna a wal ddringo i unrhyw fyfyriwr Uwchraddedig sy'n aros yn neuaddau'r Brifysgol, ac i fyfyrwyr nad ydynt yn breswylwyr rydym yn cynnig pris rhatach o £135 ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan. Mae'r cynnig hwn hefyd yn rhoi mynediad i chi i leoedd gwag ar yr amserlen ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a hamdden megis badminton a phêl-droed.

13.3 Beth sydd ar gael?

Y brif neuadd chwaraeon yw cartref ein campfa ar ei newydd wedd, gydag ardal cryfhau a chyflyru, ac ystafell codi pwysau. Mae gennym bwll nofio a sawna lle ceir cadeiriau ymlacio, man tawel ac ystafell therapi yn ogystal ag ardal haul newydd awyr agored. Cynhelir y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau dawns, y crefftau ymladd a'r dosbarthiadau ymarfer mewn grwpiau yn y stiwdio ddawns. Adnodd arall yw'r wal ddringo.

Wrth ymyl ardal y babell mae cae chwarae 3G ar wahân o faint llawn ac mae trac rhedeg 400m dwy-lôn yn amgylchynu'r ddau adnodd.

Neuadd chwaraeon aml-bwrpas yw'r Cawell Chwaraeon sy'n rhoi lle i 6 chwrt badminton, criced, hoci, pêl fasged, a phêl rwyd dan-do, 2 gwrt pêl foli, saethyddiaeth a 2 gwrt sboncen.

Mae'r gampfa loeren 24 awr ar agor i bob myfyriwr sy'n byw yn y neuaddau. Mae hon wedi ei lleoli yn y Sgubor gerllaw'r neuaddau myfyrwyr yn Fferm Penglais.

**13.4 Clybiau Myfyrwyr**

Gyda mwy na hanner cant o glybiau ar gael i fyfyrwyr ac uwchraddedigion, mae digon o gyfle i roi cynnig ar gamp newydd, neu gymryd rhan yn eich hoff chwaraeon. Am restr lawn o'r clybiau, gweler y wefan chwaraeon a gweithgareddau: **https://www.abersu.co.uk/teamaber/sports/clublist/**

Dewch i Wythnos y Glasfyfyrwyr lle gallwch gwrdd â Llywydd yr Undeb Athletau sy'n cydgysylltu chwaraeon y myfyrwyr eleni a chael gwybod am y clybiau, ymhle maen nhw'n cyfarfod ac yn hyfforddi, a sut i ymuno. Mae'n gyfle hefyd i gwrdd â staff y Ganolfan Chwaraeon ac fe gewch wybodaeth am ymuno â'r gampfa, gweld ymhle mae popeth, sut i gyrraedd, beth sydd ei angen a llwyth o wybodaeth am ffitrwydd. Ewch i'n gwe-ddalennau i gael rhagor o fanylion.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'ch amser ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yn teimlo'n rhan o gymuned a chwmnïaeth y Ganolfan Chwaraeon. Os oes gennych ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar **01970 621500 / 622280**, e-bostio **sports@aber.ac.uk** neu ymweld â'r wefan: **www.aber.ac.uk/sportscentre/**.

# 14 Undeb y Myfyrwyr, Aberystwyth

https://www.umaber.co.uk / @UMAberSU ar y cyfryngau cymdeithasol

14.1 Os mai hwn yw eich tro cyntaf yn Aberystwyth neu os ydych chi wedi cael eich dal yn swigen Aber ... rydyn ni'n falch iawn eich bod wedi penderfynu astudio yma yn y Brifysgol ger y lli!

Cyn gynted ag y byddwch yn cofrestru ar eich cwrs, byddwch yn dod yn rhan o Undeb y Myfyrwyr yma yn Aberystwyth. Mae UMAber (fel y'i gelwir) yn frwd ynglŷn â sicrhau eich bod chi'n cael yr addysg a'r profiad haeddiannol, ac mai eich blaenoriaethau chi yw ein blaenoriaethau ni.

## 14.2 Pwy yw UMAber?

Mae UMAber yn elusen annibynnol a arweinir gan fyfyrwyr ac mae holl fyfyrwyr Aberystwyth yn aelodau ohoni. Fel Undeb Myfyrwyr rydym eisiau i fyfyrwyr Aber fwynhau eu bywyd fel myfyrwyr. Credwn y dylai myfyrwyr Aber fod yn hapus ac yn iach, â'r hyder a'r cyfle i lwyddo, gan wneud cyfeillion am oes a datblygu dyfodol llawn addewid.

## 14.3 Ble mae'r Undeb?

Mae adeilad yr Undeb ar ganol campws Penglais, drws nesaf i Ganolfan y Celfyddydau. Yma cewch hyd i'n Swyddogion a'r Timau o Staff, yn ogystal â'n Derbynfa ddefnyddiol lle cewch gymorth ag unrhyw gwestiwn sydd gennych. Rydym yn rhannu ein hadeilad â siop a bar y Brifysgol, sy'n llawn cynigion gwych ac yn ardal berffaith i ymlacio rhwng darlithoedd (os oes gennych chi rai!)

## 14.4 Beth all yr Undeb ei wneud i chi?

***Cynrychiolaeth Academaidd:***

Mae eich llais yn bwysig iawn i ni ac rydym yn helpu i lunio eich profiad academaidd. Mae ein cynrychiolwyr Academaidd yna i gynrychioli eich anghenion a'ch pryderon academaidd yn uniongyrchol gyda'r Brifysgol. Mae dros 40 o gynrychiolwyr sy'n benodol ar gyfer Astudiaethau Uwchraddedig.

***Canolfan Cynghori:***

Rydym yn gweithio i helpu myfyrwyr i fod mor hapus ac iach â phosibl. Mae'r Ganolfan yn cynnig cyngor annibynnol ar bob math o faterion myfyrwyr, gan gynnwys cyllid, llety a materion academaidd.

***Cyfleoedd:***

Rydym eisiau helpu myfyrwyr i wneud ffrindiau am oes. Gallwch ymuno â chymuned #TîmAber o dros 130 o glybiau chwaraeon a chymdeithasau, yn ogystal ag amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli. Mae gennym hefyd rwydwaith uwchraddedig sy'n darparu cyfleoedd i gwrdd ag uwchraddedigion eraill o'r un anian. Rhowch gynnig ar rywbeth newydd neu ddechrau rhywbeth eich hun hyd yn oed! Dyma'r ffordd orau o wneud ffrindiau a meithrin eich sgiliau a'ch profiad i'ch helpu i baratoi ar gyfer eich antur nesaf.

***Newid Aber:***

Cawn ein harwain gan fyfyrwyr, a gweithiwn er lles myfyrwyr. Dewch i gymryd rhan yn y gwaith o lunio UMAber drwy rannu syniadau ar gyfer gwella, pleidleisio yn ein hetholiadau neu ddod yn arweinydd myfyrwyr eich hun. Mae etholiadau UMAber yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd y gall myfyrwyr gael dylanwad uniongyrchol ar yr hyn a wnawn a datblygu ein gwaith.

# Rhestr o Gyfeiriadau

(Noder: I wneud galwad ffôn neu anfon ffacs o'r tu allan i'r DU, rhowch y cod + 44 1970 yn lle 01970)

## GWASANAETHAU BRYS

(24 awr)

Ar gyfer y Gwasanaethau Brys (Heddlu, Ambiwlans, y Frigâd Dân, Gwylwyr y Glannau) ffoniwch **999 neu 122** o ffôn symudol. I gael cymorth brys gan staff Diogelwch Safle'r Brifysgol ffoniwch **01970 622649**

I gael cymorth brys yn Neuaddau'r Brifysgol ffoniwch **01970 622900**

**Prif Gyfnewidfa'r Brifysgol**
(cysylltydd ar gael rhwng 8.45 a 17.15 o ddydd Llun i ddydd Gwener) Ffôn: **01970 623111**

# Cyfeiriadau a Rhifau Ffôn Cyswllt

**Swyddfa Derbyn Graddedigion, Y Gofrestrfa Academaidd**
Adeilad Cledwyn, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DD
Ffôn 01970 622270
E-bost admissions@aber.ac.uk
Ar y we www.aber.ac.uk/cy/postgrad/

**Swyddfa Gweinyddiaeth Myfyrwyr, Y Gofrestrfa Academaidd**
Adeilad Cledwyn, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DD
Ffôn: 01970 622272 / 622290
E-bost: pgsstaff@aber.ac.uk

**Ysgol y Graddedigion**
Adeilad Cledwyn, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DD
Ar y we www.aber.ac.uk/grad-school
E-bost graduate.school@aber.ac.uk
Ffôn Swyddfa Graddedigion: 01970 622219
Ffôn Swyddog Datblygu Sgiliau: 01970 621618

**Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd**
Adran Llywodraethiant Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BY
Ffôn 01970 622169 / 01970 621073
E-bost hasstaff@aber.ac.uk
Ar y we www.aber.ac.uk/cy/hse

**Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi (YBA)**
12 Parc Gwyddoniaeth, Cefn Llan,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AH
E-bost: drbi@aber.ac.uk
Ar y we www.aber.ac.uk/cy/rbi

**Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr**
Canolfan Croesawu Myfyrwyr, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3FB
Ffôn 01970 621761 neu 01970 622087
Ebost student-support@aber.ac.uk
Ar y We
https://www.aber.ac.uk/cy/studentservices/accessibility/

**Ymgynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol**
Ystafell 3.63 (3ydd Llawr) Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd, Canolfan Croesawu Myfyrwyr, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3FB
Ffôn 01970 621548
E-bost: immigrationadvice@aber.ac.uk

**Cydymffurfio Fisa Myfyrwyr: Y Gofrestrfa Academaidd**
Prifysgol Aberystwyth
Adeilad Cledwyn,
Campws Penglais
Aberystwyth,
Ceredigion SY23 3DD
Ffon 01970 621769
Ebost compliance@aber.ac.uk
Ar y we: https://www.aber.ac.uk/en/academic-registry/compliance-information/

**Gwasanaethau Gwybodaeth**
Llyfrgell Hugh Owen, Campws Penglais,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DZ
Ffôn 01970 622400
E-bost is@aber.ac.uk
Ar y we www.aber.ac.uk/cy/is/

**Undeb y Myfyrwyr**
Yr Undeb, Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3DX
Ffôn 01970 621700
E-bost union@aber.ac.uk
Ar y we www.abersu.co.uk

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU
Ffôn 01970 632800
Ffacs 01970 615709
E-bost gofyn@llgc.org.uk
Ar y we www.llgc.org.uk/

**Gwasanaeth Gyrfaoedd**
Adeilad Llandinam, Campws Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 3DB
Ffôn 01970 622378
E-bost careers@aber.ac.uk
Ar y we www.aber.ac.uk/cy/sscs/careers

**Y Ganolfan Gerdd**
Ffôn 01970 622685
E-bost music@aber.ac.uk
Ar y we https://www.aber.ac.uk/cy/music/

**Y Ganolfan Chwaraeon**
Swyddfa Aelodaeth: 01970 621500
Swyddog Datblygu Chwaraeon:
01970 622278
E-bost sports@aber.ac.uk
Derbynfa: 01970 622280
Swyddfa'r Undeb Athletau: 01970 621754/55
Ar y we www.aber.ac.uk/cy/sportscentre

# Rhan Dau

# CANLLAWIAU I FYFYRWYR YMCHWIL UWCHRADDEDIG

# RHESTR TERMAU A PHWYNTIAU I’W NODI

Dichon y bydd rhai o’r termau a ddefnyddir yn y Canllawiau hyn yn ddieithr ichi. Bydd gan eraill ystyron penodol o fewn rheolau a rheoliadau’r Brifysgol, ac mae’n bosibl bod yr ystyron hynny yn wahanol i ystyron prifysgolion eraill neu heb fod yn amlwg. O bryd i’w gilydd, mae hyn yn arwain at ddryswch rhwng myfyrwyr a’r Brifysgol. Mae’r rhestr hon o dermau yn diffinio rhai o’r termau allweddol y byddwch yn dod ar eu traws ac yn amlygu mannau lle gallai dryswch godi.

**Llythyr Cynnig** – mae’r llythyr cynnig a anfonir gan y Swyddfa Derbyn Graddedigion yn cynnig lle yn ffurfiol ar raglen astudio. Mae’n darparu manylion am y rhaglen ac unrhyw amodau y mae angen i’r myfyriwr eu cwrdd. Dim ond y Swyddfa Derbyn Graddedigion all gynnig lle i astudio yn y Brifysgol yn ffurfiol.

**Matricwleiddio** – pan fo darpar fyfyrwyr yn seilio eu ceisiadau ar gymwysterau y maent wedi’u hennill neu y maent yn astudio amdanynt mewn prifysgolion ar wahân i Brifysgol Aberystwyth, gall y Brifysgol, fel rhan o’r proses derbyn, ofyn am gael gweld tystysgrifau gwreiddiol er mwyn gwirio a chymeradwyo’r cyfryw gymwysterau. Bydd angen i sampl o 10% o bob carfan o fyfyrwyr gyflwyno dogfennau gwreiddiol. Gelwir y proses hwn yn fatricwleiddio. Rhaid i fyfyrwyr nad ydynt wedi graddio ym Mhrifysgol Aberystwyth, fatricwleiddio (naill ai dros dro neu’n llawn) cyn cychwyn ar eu rhaglen astudio.

I’r rheini sydd heb radd, mae’n bosibl matricwleiddio ar gyfer rhaglen Athro ar sail profiad gwaith perthnasol a bydd y Brifysgol yn gwirio maint y profiad. Ond nid yw’n bosib i rywun heb radd fatricwleiddio ar gyfer rhaglenni PhD.

**Gohirio mynediad** – gall myfyrwyr sydd wedi cael cynnig lle i astudio yn y Brifysgol ond nad ydynt, am resymau ariannol neu resymau eraill, yn gallu derbyn y cynnig ar yr adeg benodedig, wneud cais i gael gohirio mynediad i ddyddiad yn nes ymlaen. Bydd y Swyddfa Derbyn Graddedigion yn eu cynghori ynghylch a fydd lle yn cael ei gadw ar eu cyfer ai peidio ac am ba hyd y cedwir y lle hwnnw’n agored iddynt.

**Cofrestru** – mae’n rhaid i’r holl fyfyrwyr gofrestru gyda’r Brifysgol ar ddechrau eu rhaglen astudio ac ar ddechrau pob sesiwn yn ystod *cyfnod eu cofrestriad* (gweler isod). Mae’n rhaid i fyfyrwyr arwyddo datganiad eu bod wedi dechrau eu rhaglen astudio. Bydd cynrychiolydd o’r adran yn cydarwyddo’r datganiad hwn i ddweud bod ganddynt sêl bendith yr adran i ddilyn eu cwrs astudio. Wedi iddynt gofrestru, gall myfyrwyr ddefnyddio cyfleusterau’r Brifysgol. Hyd yn oed os ydynt wedi cwblhau’r proses derbyn ac wedi cael cynnig lle i astudio, dylai myfyrwyr nodi nad ydynt yn fyfyrwyr yn y Brifysgol tan iddynt gofrestru’n ffurfiol.

**Cyfnod Cofrestriad** – mae gan bob rhaglen astudio ymchwil isafswm cyfnod cofrestriad. Dyma’r cyfnod pryd mae’n rhaid i’r myfyriwr dalu ffioedd dysgu a chofrestru’n ffurfiol ar ddechrau pob sesiwn. Yn ystod y cyfnod hwn, mae gan fyfyrwyr fynediad awtomatig a chyflawn i gyfleusterau’r Brifysgol. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, bydd y Brifysgol yn ardystio bod y myfyriwr yn fyfyriwr amser llawn neu ran-amser cofrestredig yn y Brifysgol. Yn aml, mae angen y math yma o dystysgrifau ar fyfyrwyr sydd angen fisâu neu sy’n dymuno cael gostyngiad yn nhreth y cyngor, er enghraifft. Sylwer y gall adrannau, mewn rhai achosion, ofyn i fyfyrwyr gofrestru am gyfnod hwy na’r isafswm (gweler *estyn cyfnod y cofrestriad*, isod). Sylwer hefyd, ac eithrio pan fo myfyrwyr wedi eu hesgusodi o flynyddoedd prawf (gweler *cyfnod prawf*, isod), na ellir lleihau isafswm y cyfnod, hyd yn oed os ydyw myfyrwyr yn cwblhau eu traethodau ymchwil yn ystod y cyfnod hwn. Mae’r rheoliadau yn caniatáu i fyfyrwyr gyflwyno eu traethodau ymchwil chwe mis cyn diwedd cyfnod eu cofrestriad, ond mae’n rhaid talu ffioedd am y cyfnod cyfan.

**Estyn Cyfnod y Cofrestriad** – gall Adrannau ofyn i fyfyrwyr gofrestru a thalu ffioedd am gyfnod ychwanegol ar ôl isafswm y cyfnod sy'n angenrheidiol ar gyfer eu rhaglen astudio os ydynt yn credu bod gan y myfyriwr swm sylweddol o ymchwil i'w gwblhau. Sylwer *nad* yw estyn cyfnod y cofrestriad yn golygu estyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno.

**Trosglwyddo i mewn** – gall myfyrwyr sydd wedi dechrau eu hymgeisyddiaeth mewn sefydliad arall ond sy'n dymuno trosglwyddo i'r sefydliad hwn er mwyn cwblhau eu hastudiaethau wneud hynny ac eithrio o dan yr amgylchiadau canlynol: ni all myfyrwyr ymchwil ym mlwyddyn olaf eu cyfnod cofrestriad amser llawn [neu ddwy flynedd olaf eu cofrestriad rhan-amser] drosglwyddo i Brifysgol Aberystwyth heb dalu ffioedd ychwanegol am o leiaf un flwyddyn o astudio amser llawn neu ddwy flynedd o astudio rhan-amser. Rhaid i fyfyrwyr sydd wedi trosglwyddo ac wedi cael eu derbyn gan yr adrannau gael gwybodaeth ynghylch dyddiad cychwyn, dyddiad gorffen a dyddiad cyflwyno hwyraf eu cwrs yn y llythyr cynnig cyn iddynt dderbyn eu lle.

**Dull o Astudio** – gall ymgeiswyr astudio naill ai ar sail amser llawn neu ar sail ran-amser. Mae'r rheoliadau ar gyfer y naill a'r llall yn amrywio o ran terfynau amser a chyfnodau cofrestriad. Rhaid i unrhyw newid o'r naill ddull i'r llall gael ei drafod â'r adran. Rhaid i'r myfyriwr wedyn lenwi Ffurflen Newid Cofrestriad sydd ar gael yn yr adran neu ar y we yn [https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/pg-issues/research/change-reg/](https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/pg-issues/research/change-reg/)

**Cyfnod Prawf** – mae gan raglenni PhD gyfnod prawf, sef blwyddyn yn achos rhaglen amser llawn a dwy flynedd yn achos rhaglen ran-amser. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos eu gallu i gyflawni gwaith ymchwil i lefel foddhaol os ydynt i fynd ymlaen gyda'u hymchwil doethurol y tu hwnt i'r cyfnod prawf. Yn ogystal, dylai myfyrwyr nodi bod disgwyl iddynt ddangos, ar ddiwedd *pob* blwyddyn o astudio, eu gallu i fynd ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Gall myfyrwyr gael eu hesgusodi o'r cyfnod prawf os yw'r adrannau yn teimlo bod eu profiad blaenorol yn eu galluogi i gwblhau eu hymchwil mewn cyfnod byrrach. Dylai myfyrwyr nodi hefyd fod eithrio o'r cyfnod prawf hefyd yn lleihau'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno fel y nodir yn y Canllawiau. Nid yw eithrio o'r cyfnod prawf yn golygu eithrio o hyfforddiant ymchwil ym mhob achos. Rhaid cymeradwyo'r eithrio yn ystod y proses derbyn: yn sicr, ni ellir gwneud hynny ar ôl cofrestru.

**Cyfyngu Mynediad** – mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd gwaith ymchwil a dderbynnir ar gyfer gradd uwch ar gael yn agored heb amodau diogelwch na chyfyngiadau o ran mynediad ato. Fodd bynnag, ceir ambell achos lle bo angen pwysicach i wahardd caffaeledd, er enghraifft lle bo gwaith ymchwil sy'n cael ei noddi yn arwain at draethawd sy'n cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif. Yn y fath achos gall y Brifysgol, ar argymhelliad arbennig yr adran, wahardd caffaeledd am gyfnod penodedig (o hyd at 5 mlynedd). Dylai arolygydd yr ymgeisydd wneud cais mor fuan â phosibl, fel rheol ar adeg cofrestru'r cynllun ymchwil. Rhaid i Bennaeth yr Adran gefnogi pob cais a chyflwynir yr argymhelliad i'r Bwrdd Graddau Ymchwil. Mae hi hefyd yn bosibl, ar wahân, a gyda chymeradwyaeth y Gwasanaethau Gwybodaeth, i wneud cais am waharddiad ar y traethawd ymchwil electronig sydd fel rheol yn cael ei adneuo yn storfa ar-lein y Brifysgol. Nid yw hyn yn gwahardd pob mynediad i'r traethawd ymchwil, ond mae'n golygu na fydd ar gael yn electronig am gyfnod penodol.

**Cyfnod Ysgrifennu** – y 'cyfnod ysgrifennu' yw'r enw a roddir yn fynych ar y cyfnod rhwng diwedd cyfnod y cofrestriad a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Bydd myfyrwyr ymchwil nad ydynt wedi cwblhau eu traethawd erbyn diwedd cyfnod arferol cofrestru ac arolygu'r radd uwchraddedig y maent wedi cofrestru amdani, yn parhau i gael mynediad i adnoddau llyfrgell a TG

y Brifysgol, ond, er eu bod, o bosibl, yn dal i weithio’n amser llawn ar eu traethodau ymchwil, nid ydynt bellach yn fyfyrwyr cofrestredig amser-llawn. Bydd y Brifysgol yn parhau i dybied y dylai myfyrwyr doethurol amser-llawn gael eu heithrio rhag talu Treth y Cyngor yn ystod eu pedwaredd flwyddyn, ond nid ar ôl hynny. Bydd ymgeiswyr MPhil yn cael eu heithrio am 6 mis ar ôl i gyfnod eu cofrestriad ddod i ben. Fodd bynnag, ni allwn ddarparu tystysgrifau i ddweud bod myfyrwyr yn ymgeiswyr cofrestredig amser-llawn yn y cyfnod hwn. Efallai y bydd gan hyn oblygiadau o ran llety er enghraifft. Mae’r Brifysgol wrthi’n adolygu statws myfyrwyr yn y cyfnod ysgrifennu.

# 1. Cyflwyniad

Ceir hyd i amcanion y Brifysgol yn ei Chynllun Strategol ar gyfer 2018-23. Yn benodol ar gyfer myfyrwyr uwchraddedig, amcanion y Strategaeth Uwchraddedig yw:

1. Cynorthwyo addysg ac ymchwil uwchraddedig,
2. Adeiladu a chynyddu'r gymuned uwchraddedig,
3. Gwella'r profiad i fyfyrwyr uwchraddedig, a gwella cyfleoedd gyrfaol a datblygiad y myfyrwyr (h.y. eu cyflogadwyedd),
4. Gwella/cynnal y cyfraddau cwblhau, a
5. Sicrhau bod y ddarpariaeth Uwchraddedig yn Aberystwyth yn ddeniadol, yn berthnasol ac ar sylfaen ariannol gadarn a chynaliadwy.

Datblygwyd y Canllawiau hyn fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i'w myfyrwyr ymchwil. Y mae iddynt bwrpas deublyg. Yn gyntaf, maent yn nodi cyfrifoldebau'r Brifysgol, yr adrannau academaidd a'r arolygwyr tuag at fyfyrwyr ymchwil, fel y gŵyr myfyrwyr beth i'w ddisgwyl gan y Brifysgol yn ystod eu cwrs astudio. Yn ail, mae'r Canllawiau yn nodi'n eglur gyfrifoldebau'r myfyrwyr dros eu dysg eu hunain fel eu bod yn gwybod beth mae'r Brifysgol yn ei ddisgwyl ganddynt. Dylid eu darllen law yn llaw â'r rheoliadau ffurfiol ynglŷn â gweinyddu graddau ymchwil ynghyd â dogfennau manwl eraill sy'n ymwneud â gweithgaredd ymchwil uwchraddedig fel y crybwyllir isod.

Mae'r Canllawiau hyn yn cydymffurfio â Chod Ansawdd (ASA): Graddau Ymchwil, sydd ar gael ar y we yn: **https://www.qaa.ac.uk/cy/y-cod-ansawdd/cyngor-a- chyfarwyddyd/graddau-ymchwil**.

# 2. Derbyn Myfyrwyr

## 2.1 Trefn Ymgeisio

Mae'n rhaid i geisiadau am bob cynllun astudio uwchraddedig gael eu hanfon at a'u hystyried gan y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr. Bydd staff Derbyn Myfyrwyr yn asesu pa mor gymwys yw ymgeisydd i gael ei dderbyn i raglen uwchraddedig ac yn ystyried yn benodol gymwysterau cynharach, gan gynnwys cymwysterau nas cafwyd yn y DU, rhuglder yn yr iaith Saesneg ac unrhyw amgylchiadau eraill a amlinellir yn y cais, megis profiad gwaith blaenorol. Bydd pob cais am gwrs ymchwil uwchraddedig yn cael ei anfon ymlaen at yr adran academaidd berthnasol i'w ystyried.

## 2.2 Proses Penderfynu

Dylai penderfyniad yr adran academaidd fod yn seiliedig ar gefndir academaidd a photensial ymchwil yr ymgeisydd, ac felly ei addasrwydd ar gyfer y cwrs. Mae angen cynnig ymchwil (ac eithrio pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais am brosiect cyn ei hysbysebu)
Gall gymryd yn hwy i wneud penderfyniad os yw'r cais yn gysylltiedig â chystadleuaeth ysgoloriaethol neu â dethol myfyrwyr ar gyfer prosiect, neu os nad yw'r wybodaeth/dogfennau priodol wedi'u darparu wrth wneud cais.

Ar ôl derbyn penderfyniad yr adran academaidd, bydd ymgeisydd yn cael ei dderbyn ar raglen astudiaeth uwchraddedig, bydd y tîm Derbyn Myfyrwyr yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad hwn ar ffurf llythyr cynnig yn cynnig lle ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd ymgeiswyr hefyd yn cael gwybod yn ysgrifenedig os yw eu cais wedi bod yn aflwyddiannus. Dim ond ar ôl i'r ymgeisydd gwrdd neu gytuno â phob amod neu ofyniad a nodwyd yn y llythyr cynnig y gall y rhaglen astudio gychwyn. Gall amodau ymwneud, er enghraifft, â lefel arbennig o gymhwyster o raglen gyfredol, tystiolaeth o wybodaeth ddigonol o'r iaith Saesneg, neu gytundeb i ddilyn cwrs mewn hyfforddiant ymchwil a drefnir gan yr Adran neu'r Gyfadran lle cynhelir yr astudiaeth uwchraddedig.

Yn y cyfnod yma gall ymgeiswyr godi cwestiynau pellach ynglŷn â manylion penodol eu rhaglen uwchraddedig arfaethedig, y dylid eu hateb cyn i'r ymgeisydd gyflwyno'r Ffurflen Ymateb i Gynnig i

dderbyn telerau'r cynnig a chyn cadarnhau lle i astudio (yn y Cadarnhad Terfynol o Le: gweler 2.6 isod). Er bod Adrannau academaidd yn gallu cysylltu ag ymgeiswyr yn uniongyrchol i awgrymu'n anffurfiol eu bod yn barod i'w derbyn ar gwrs, dim ond y tîm Derbyn Myfyrwyr sydd â'r awdurdod i wneud cynnig ffurfiol i gael astudio yn uwchraddedig yn y Brifysgol.

2.3 Rhaid i Adrannau gyfweld ymgeiswyr ymchwil cyn y gellir derbyn eu cais. Os nad yw cyfweliadau wyneb-i-wyneb yn bosibl, dylai'r adrannau ystyried cynnal cyfweliadau dros y ffôn neu ar-lein (MS Teams neu Zoom). Fodd bynnag, ym mhob achos, gall y cynnig ymchwil a'r geirda academaidd fod o bwys allweddol yn y broses benderfynu. Dylid ystyried cefndir academaidd yn unol â gofynion mynediad y Brifysgol a'r Adran. Sylwer na fydd rhai myfyrwyr sy'n gallu matricwleiddio yn gallu cwrdd â'r gofynion mynediad penodol ar gyfer y cwrs perthnasol o reidrwydd. Dylai ymgeiswyr ar gyfer graddau ymchwil feddu ar neu ddisgwyl ennill o leiaf radd Baglor Anrhydedd ail ddosbarth uwch (2i) neu gymhwyster cyfwerth. Dichon hefyd y rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr gyda gradd Baglor Anrhydedd ail ddosbarth is dda (2ii) neu gymhwyster cyfwerth y cynyddir ei werth gan radd Meistr, neu raddau MPhys neu MEng ail ddosbarth is da. Mae rhai Adrannau yn disgwyl i ymgeiswyr feddu ar neu ddisgwyl ennill gradd Meistr dda yn ogystal â gradd Baglor dda. Dylai dysgu blaenorol trwy brofiad neu ddysgu ardystiedig sydd wedi'i achredu gael ei ystyried fel rhan o'r broses hon a chyn derbyn myfyrwyr ar y rhaglen. Dylai unrhyw esgusodi o gyfnod prawf rhaglen PhD gael ei bennu cyn derbyn y myfyriwr ar y rhaglen.

### 2.4 Gofynion Ariannol

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi Ffurflen Datganiad Ariannol i ddangos sut y maent yn bwriadu talu am eu ffioedd dysgu. Bydd angen i ymgeiswyr rhyngwladol hefyd dalu blaendal, na fydd yn cael ei ad-dalu, tuag at eu ffioedd dysgu. Hefyd, bydd statws ariannol ymgeiswyr sy'n ymgeisio am fisa Myfyrwyr y DU yn cael ei wirio cyn y cânt Dystysgrif Derbyn i Astudio at ddibenion cael fisa. Ceir manylion am gostau'r astudiaeth arfaethedig yn y llythyr cynnig ffurfiol a geir oddi wrth y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr. Mae angen i fyfyrwyr sy'n cael eu noddi gyflwyno hysbysiad swyddogol yn datgan y byddant yn derbyn grant. Bydd rhaid i bob dogfen o'r fath fod yn gopi gwreiddiol neu'n gopi ardystiedig (wedi'u cyfieithu i'r Saesneg lle bo angen). Os cynigir unrhyw nawdd gan y Brifysgol, naill ai'n ganolog neu gan yr Adran, dylid gwneud hynny ar bapur a chan nodi union faint y nawdd honno, am sawl blwyddyn y'i rhoddir a'r ffynhonnell. Dylai cynigion o nawdd o ffynonellau allanol hefyd gynnwys yr un math o wybodaeth benodol.

### 2.5 Amodau Derbyn

Os nad yw ymgeiswyr yn medru cwrdd â'r gofynion a nodwyd yn y llythyr cynnig neu os nad ydynt am resymau eraill yn dymuno derbyn lle astudio am y sesiwn cyfredol, gallant wneud cais am ohirio'r cynnig tan gyfnod derbyn myfyrwyr diweddarach. Mae pob cais am ohirio cynigion yn amodol ar gymeradwyaeth yr adran academaidd berthnasol. Gellir gohirio lleoedd am gyfnod hyd at ddwy flynedd. Mewn achosion eithriadol, gellir gosod amodau newydd ar y cynnig gwreiddiol. Mae hyn yn unol â'r Ddeddf Diogelu Defnyddwyr.

2.6 Pan fo holl amodau'r cynnig wedi eu cwrdd, bydd y tîm Derbyn Myfyrwyr yn ysgrifennu i gadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cwblhau'r broses derbyn myfyrwyr. Bydd hyn trwy gyfrwng Llythyr Cadarnhad Terfynol o Le Derbyn (y cyfeirir ato'n gyffredin fel y 'llythyr cwbl gyflawn')

Bydd yr ymgeisydd wedyn yn gallu paratoi i gofrestru'n ffurfiol ar gyfer eu rhaglen uwchraddedig.

2.7 Bydd ymgeiswyr rhyngwladol amser llawn sy'n seiliedig ar y campws hefyd yn cael Tystysgrif Derbyn i Astudio at ddibenion cael fisa. Dylai myfyrwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau eu hunain o dan reoliadau Fisa Myfyrwyr y DU, yn ogystal â chyfrifoldebau'r Brifysgol. Am ragor o wybodaeth, gweler https://www.aber.ac.uk/en/academic-registry/compliance-information/.

2.8 Polisi'r Brifysgol yw cynnig lle ar sail academaidd yn unig. Ni ddylai ymgeisydd uwchraddedig gael ei drin yn llai ffafriol ar sail megis oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd, mamolaeth, na statws rhiant, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, nac unrhyw sail cyffelyb.

Os bydd ymgeisydd wedi datgelu bod ganddo/ganddi anabledd neu gyflwr meddygol yn ystod y broses dderbyn, ac wedi rhoi caniatâd i'r tîm Derbyn Myfyrwyr rannu'r wybodaeth hon gyda thîm Cymorth i Fyfyrwyr y Brifysgol, bydd y Brifysgol yn cymryd camau i weithio gyda'r ymgeisydd i asesu'r angen am addasiadau rhesymol a, phan fo angen, i weithredu'r addasiadau hynny er mwyn iddynt fynd i'r afael â'u hastudiaethau ar sail cyfartal i'w cyfoedion  Dylai ymgeiswyr gysylltu â Cymorth i Fyfyrwyr yn uniongyrchol (accessibility@aber.ac.uk) i drafod unrhyw ofynion ychwanegol a allai fod ganddynt. Dylai ymgeiswyr sy'n cael cyllid gan Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) hefyd gysylltu â'u Cyngor Ymchwil perthnasol.

2.9 Cyfrifoldeb ymgeiswyr unigol yw datgan unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a allai effeithio ar eu hastudiaethau eu hunain a/neu gyflwyno risg i ddiogelwch staff a myfyrwyr y Brifysgol. Mae gan fyfyrwyr gyfrifoldeb i ddatgelu unrhyw resymau cyfreithiol sy'n eu cyfyngu neu'n eu hatal rhag mynd i mewn i eiddo'r brifysgol, a/neu weithio gydag unigolion, a/neu weithio gyda grwpiau, a/neu gyrchu'r rhyngrwyd trwy systemau ac adnoddau'r Brifysgol. Gellid ystyried bod methu â datgan y wybodaeth hon i'r Brifysgol yn torri Gweithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol a gellid gosod cosbau yn unol â hynny.

## 3. Gofynion Presenoldeb

3.1 Disgwylir i fyfyriwr ymchwil uwchraddedig amser llawn fod yn bresennol yn y Brifysgol am o leiaf 44 wythnos ym mhob blwyddyn academaidd o'u cyfnod cofrestru (dyma'r cyfnod y bydd y cyrff sy'n dyfarnu grantiau fel arfer yn ei olygu wrth roi grant am flwyddyn). Mae hyn yn golygu y disgwylir y bydd myfyriwr ymchwil uwchraddedig amser llawn fel arfer yn byw o fewn pellter teithio dyddiol i Aberystwyth. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen i rai myfyrwyr gyflawni gwaith maes neu gasglu data y tu allan i Aberystwyth. Rhaid i absenoldebau o ragor na thair wythnos gael sêl bendith y Pennaeth Adran perthnasol. Gall Pennaeth Ysgol y Graddedigion gymeradwyo ceisiadau hefyd gan fyfyrwyr unigol i fyw yn rhywle arall am gyfnod o'u hastudiaethau, os oes rheswm dilys a bod y myfyriwr yn gallu bodloni holl ofynion yr hyfforddiant ymchwil a'r cwrs.

3.2 Dylai myfyrwyr rhan-amser gytuno ar amserlen bresenoldeb ac/neu gyfarfodydd gyda'u harolygwr. Anogir myfyrwyr ymchwil uwchraddedig rhan-amser i fynychu'r Brifysgol wyneb yn wyneb i gael cyfarfodydd â'u tîm arolygu ac i fod yn bresennol mewn gweithgareddau eraill. Gellir cynnal cyfarfodydd arolygu rheolaidd ar-lein hefyd, trwy Teams neu feddalwedd tebyg.

3.3. Rhaid i'r Adrannau adrodd ynghylch unrhyw absenoldeb nas caniatawyd wrth Bennaeth Ysgol y Graddedigion ac wrth y Pwyllgor Monitro Ymchwil (os yn briodol), a bydd y corff sy'n noddi ymchwil y myfyriwr yn cael ei hysbysu hefyd. Mewn achosion o'r fath, gall Pennaeth Ysgol y Graddedigion neu'r Pwyllgor Monitro Ymchwil argymell na ddylid caniatáu i'r myfyriwr fynd ymlaen i flwyddyn nesaf ei waith ymchwil, a gall argymell ei fod yn cael ei wahardd o'r Brifysgol.

3.4 Mae presenoldeb myfyrwyr amser llawn ar y Rhaglen Datblygu Ymchwiliwr (os yn berthnasol) yn cael ei ystyried yn hanfodol gan y Brifysgol. Cedwir cofrestr o'r myfyrwyr sy'n mynychu pob sesiwn, a chaiff presenoldeb ei fonitro gan Ysgol y Graddedigion. Bydd absenoldeb y myfyrwyr hynny sy'n gorfod dilyn y modiwl yn cael ei ystyried wrth gyflwyno adroddiadau blynyddol ar gynnydd pob myfyriwr ymchwil i'r Adran/Cyfadran ac wedi hynny i'r Pwyllgor Monitro Ymchwil. Bydd achosion o absenoldeb hir heb reswm ar ran unrhyw fyfyriwr ymchwil uwchraddedig yn cael eu hymchwilio gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion a'r Gyfadran a/neu arolygwr y myfyriwr ac, os oes angen, gan Bennaeth yr Adran a Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran, a gallant arwain at rwystro'r myfyriwr rhag mynd ymlaen i'r flwyddyn nesaf, neu at ei wahardd o'r Brifysgol.

## 4. Cofrestru ac Ymgyfarwyddo

4.1 Mae'n rhaid i fyfyrwyr gofrestru ar ddechrau eu hastudiaethau ac eto bob mis Medi yn ystod isafswm cyfnod eu cofrestriad (gweler Tabl 1 isod). Rhaid i bob myfyriwr ymchwil newydd gofrestru ar- lein

yn ystod Wythnos Mawr y Croeso a'r Wythnos Gynefino. Rhaid i'r holl uwchraddedigion ymchwil amser-llawn sy'n dychwelyd gofrestru ar-lein yn ystod yr Wythnos Groesawu bob mis Medi; caiff myfyrwyr rhan-amser sy'n dychwelyd gofrestru ar-lein, o bell. Cynghorir myfyrwyr yn gryf i gychwyn eu hymchwil ar ddechrau blwyddyn academaidd a dylent fod yn ymwybodol fod rhai dyfarniadau (e.e. AberDoc) yn amodol ar ddechrau ym mis Medi. Bydd gwybodaeth am gofrestru a sefydlu yn cael ei hanfon ymlaen llaw at bob myfyriwr newydd.

Rhaid i fyfyrwyr sydd wedi cael caniatâd i ddechrau yn hwyrach yn y flwyddyn gysylltu â'r Gofrestrfa Academaidd ar **pgsstaff@aber.ac.uk** i gofrestru.

| **TABL1: TERFYNAU AMSER AR GYFER COFRESTRU A CHYFLWYNO** | | | |
|---|---|---|---|
| GRADD A DULL ASTUDIO | **ISAFSWM CYFNOD TALU FFIOEDD / CYFNOD Y COFRESTRIAD** | **TERFYN AMSER / DYDDIAD CAU AR GYFER CYFLWYNO'R TRAETHAWD YMCHWIL** | UCHAFSWM AMSER A GANIATEIR GAN GYNNWYS UNRHYW ESTYNIADAU NEU GYFNODAU YMADAEL DROS DRO |
| **MPhil**<br>**Amser llawn**<br>**Rhan amser** | 1 flwyddyn<br>2 flynedd | 2 flynedd<br>4 blynedd | 4 blynedd<br>6 mlynedd |
| **PhD**<br>**Amser llawn**<br>**Amser llawn ***<br>***(heb flwyddyn brawf)** | 3 blynedd<br>2 flynedd | 4 blynedd<br>3 blynedd | 6 mlynedd<br>5 mlynedd |
| **Rhan –amser**<br>**Rhan-amser ***<br>***(heb flwyddyn brawf)** | 5/6<br>mlynedd<br>3/4<br>blynedd | 7/8<br>mlynedd<br>5/6<br>mlynedd | 9/10<br>mlynedd<br>7/8<br>mlynedd |

4.2 Ar ôl iddynt gofrestru'n ffurfiol, bydd y Brifysgol yn caniatáu i fyfyrwyr ddefnyddio ei hadnoddau. Darperir tystysgrifau cofrestru pe gwneir cais amdanynt i'r Gofrestrfa Academaidd, drwy anfon ebost at **aocstaff@aber.ac.uk** neu drwy ddefnyddio'r system

geisiadau ar-lein: . https://www.aber.ac.uk/cy/academic- registry/certification/

4.3 Os yw'r rhaglen astudio uwchraddedig yn ymestyn i'r flwyddyn academaidd ganlynol, yna cyfrifoldeb y myfyriwr yw ailgofrestru ar ddechrau'r sesiwn academaidd honno. Bydd myfyrwyr sy'n dychwelyd yn derbyn gwybodaeth am gofrestru yn ystod yr haf.

Bydd rhaglen gofrestru a sefydlu ar gyfer yr holl fyfyrwyr ymchwil uwchraddedig amser llawn newydd yn cael ei threfnu ar ddechrau pob blwyddyn academaidd gan y Ysgol y Graddedigion. Anfonir manylion y rhaglen at fyfyrwyr newydd cyn iddynt gyrraedd Aberystwyth.

Anogir myfyrwyr rhan-amser i fynychu'r rhaglen gyflwyno. Yn ogystal, trefnir diwrnod cyflwyno ar gyfer myfyrwyr Rhyngwladol a myfyrwyr sy'n ymweld cyn adeg y cofrestru. Mae llawer o adrannau hefyd yn cynnig eu rhaglenni cyflwyno eu hunain, a byddant yn anfon manylion yn eu cylch ymlaen llaw. Pan fo hynny'n wir, dylai myfyrwyr fynychu rhaglenni cyflwyno'r Brifysgol a'r adran. Bydd y Ysgol y Graddedigion a/neu'r adrannau yn gwneud trefniadau cyflwyno eraill ar gyfer myfyrwyr sy'n cofrestru yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd.

4.4 Bydd rhaglen gofrestru a sefydlu'r Brifysgol yn fodd i gyflwyno myfyrwyr ymchwil newydd i'r wybodaeth ganlynol ynglŷn â threfniadaeth a chyfleusterau'r Brifysgol:

- amlinelliad byr o'r rhaglen(ni) ymchwil arfaethedig, ynghyd â hyd arferol yr astudiaeth a'r cyfleusterau a fydd ar gael i'r myfyriwr;
- moeseg a chodau ymchwil y Brifysgol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag awduriaeth ac eiddo deallusol;
- crynodeb o'r cyfleusterau sydd ar gael, gan gynnwys yr isadeiledd cymorth dysgu;
- gwasanaethau lles a chymorth i fyfyrwyr;
- cyfle i gynrychiolwyr myfyrwyr gyflwyno eu hunain, gan gynnwys cynrychiolaeth graddedigion yn benodol;
- cyfleoedd i raddedigion gael eu cynrychioli gan gorff y myfyrwyr (h.y. Grŵp Ymgynghorol y Myfyrwyr Ymchwil);
- gweithgareddau cymdeithasol gan gynnwys gweithgareddau penodol ar gyfer graddedigion;
- amgylchedd ymchwil y Brifysgol;
- trefniadau gwerthuso, monitro ac adolygu;
- Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr (gweler Rhan 6, isod);
- Datblygu Proffesiynol Parhaus;
- Hyfforddiant Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy i Uwchraddedigion;
- trefniadau arolygu, a rolau a chyfrifoldebau arolygwyr a myfyrwyr ymchwil;
- cyfeirio at y sialensiau cyffredin a fydd yn wynebu myfyrwyr ymchwil yn ystod eu hastudiaethau, a lle gellir cael arweiniad pan gyfyd anawsterau.

4.5 Yn ystod y cyfnod cyflwyno, bydd adrannau yn darparu gwybodaeth ychwanegol am ymchwil uwchraddedig yn y maes perthnasol ynghyd ag enwau'r arolygwyr a sut i gysylltu â hwy. Yn ogystal, darperir gwybodaeth am sut mae'r trefniadau arolygu yn gweithio. Bydd yr adrannau hefyd yn darparu manylion ynglŷn â chyfleoedd i gwrdd â myfyrwyr ymchwil eraill a staff ar lefel adrannol a thu hwnt, a chyfleoedd i ddatblygu gallu ysgolheigaidd a'r gallu i feddwl yn annibynnol.

Bydd y myfyrwyr a'r arolygwyr yn cyfarfod yn ystod y cyfnod cyflwyno ac yn dod i ddealltwriaeth ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys:

- y canlyniadau a ddymunir ar gyfer y rhaglen ynghyd ag amcanion yr ymchwil, gan roi ystyriaeth i ofynion y noddwr lle bo'n briodol;
- anghenion hyfforddiant ac anghenion addysgol cyffredinol y myfyriwr, wedi eu mesur yn erbyn

Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr [gweler Atodiad 2]. Bydd hynny'n cynnwys asesiad o anghenion y myfyriwr o ran datblygu sgiliau trosglwyddadwy; sut y bydd y myfyriwr yn adrodd ynghylch cynnydd wrth yr arolygwr/arolygwyr, a sut y byddant yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd;

- monitro cynnydd o ran agweddau ymchwil a hyfforddiant y rhaglen;

4.6 Cyfrifoldeb y myfyriwr yw gwirio a diweddaru'r cofnod personol. Gall myfyrwyr gael mynediad i'w ffeiliau personol drwy'r we ar **https://studentrecord.aber.ac.uk/cy/login.php**. Mae'r cyswllt â'r 'ffeil myfyriwr' wedi'i restru o dan 'Eich Safleoedd'.

4.7 **Aelodau o staff sy'n ymgeisio am raddau MPhil neu PhD: PhD**: mae aelod amser llawn neu ran-amser o'r staff yn cofrestru am dair blynedd (gyda'r flwyddyn gyntaf yn flwyddyn brawf). Yr amser hwyaf a ganiateir ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil yw saith mlynedd o ddechrau cyfnod y cofrestriad. Fodd bynnag, gellir cofrestru aelodau o staff ymchwil, sy'n gweithio'n amser llawn ar waith ymchwil sy'n arwain at PhD, fel ymgeiswyr amser llawn gyda phedair blynedd i gwblhau.

**MPhil**: mae aelod amser llawn neu ran-amser o'r staff yn cofrestru am ddwy flynedd neu am flwyddyn os yw'n gynorthwy-ydd ymchwil amser llawn. Yr amser hwyaf a ganiateir ar gyfer cyflwyno yw pedair blynedd o'r dyddiad cychwyn. Dylai staff ymchwil sy'n cofrestru am flwyddyn gyflwyno'r traethawd ymchwil o fewn dwy flynedd.

# 5. Yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau Ymchwil

5.1 Mae ymchwil uwchraddedig yn cael ei gyflawni mewn amgylchedd academaidd sy'n meithrin ac yn cefnogi lefel uchel o ysgolheictod creadigol ac annibynnol, gan gynnwys hyfforddiant priodol yn y proses ymchwil. Mae ymchwil uwchraddedig yn rhan annatod o ddiwylliant a gweithgaredd ymchwil y Brifysgol.

5.2 Drwy dderbyn myfyriwr ymchwil, mae'r Brifysgol a'r Adran dan sylw yn ymrwymo eu hunain i ddarparu'r cyfleusterau sy'n angenrheidiol ar gyfer cwblhau'r prosiect ymchwil y cytunwyd arno. Bydd natur ac ystod y cyfleusterau cymorth yn amrywio yn ôl maes yr ymchwil a'r prosiect ymchwil ei hun. Os yw'n bolisi i godi ffi ar fyfyrwyr am ddefnyddio unrhyw gyfleusterau neu i gyfyngu ar y defnydd ohonynt mewn unrhyw fodd, yna nodir hynny'n eglur ar ddechrau'r ymchwil. Dyma restr o'r cyfleusterau cymorth a fydd ar gael (yn dibynnu ar ofynion y prosiect a'r adnoddau sydd ar gael):

(a) lle priodol i weithio, o fewn amgylchedd gwaith uniongyrchol y myfyriwr os yn bosibl;

(b) adnoddau llyfrgell digonol a hawdd eu defnyddio, gan gynnwys defnydd priodol, wedi'i gymeradwyo, o'r gwasanaeth Cyflenwi Dogfennau https://www.aber.ac.uk/cy/is/library-services/documentsupply/ a mynediad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru;

(c) mynediad i adnoddau perthnasol, gan gynnwys amrywiaeth o feddalwedd, e-bost, y Rhyngrwyd a, lle bo'n briodol, pecynnau taenlenni a phecynnau ystadegol a graffeg;

(ch) os yn berthnasol i'r prosiect ymchwil, mynediad i gyfleusterau labordy, nwyddau labordy, offer gwyddonol a gwasanaethau ffotograffig, ayb;

(d) cyfleusterau llun-gopïo ac argraffu priodol ac, os yn uniongyrchol berthnasol i'r prosiect ymchwil, mynediad addas i rwydweithiau ffôn mewnol ac allanol;

(dd) cymorth i fynd i gynadleddau a digwyddiadau cyffelyb;

(e) hyfforddiant ymchwil a sgiliau priodol.

5.3 Mae Canolfan Uwchraddedig y Brifysgol wedi'i lleoli yn Adeilad Llandinam ar gampws Penglais. Mae'r ganolfan yn darparu amrywiaeth o leoedd astudio pwrpasol i uwchraddedigion.

5.4 Bydd adrannau ac arolygwyr yn sicrhau bod myfyrwyr ymchwil rhan-amser yn cael eu harolygu'n effeithiol, ac yn rhoi ystyriaeth i'r problemau a'r amgylchiadau arbennig a all godi o waith ymchwil rhan-amser. Yn anad dim, rhaid cadw cyswllt rheolaidd rhwng arolygwyr a myfyrwyr ymchwil rhan-amser nad ydynt yn byw yn Aberystwyth. Bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth yn cynghori myfyrwyr ynglŷn â sut y gallant gael mynediad i gyfrifiaduron a chyfleusterau llyfrgell o bell yn ogystal â phan maent yn Aberystwyth.

## 6. Datblygu Ymchwilwyr, Sgiliau Proffesiynol a Throsglwyddadwy a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

6.1 Drwy ei Hysgol Graddedigion, Cyfadrannau ac Adrannau, bydd y Brifysgol yn darparu datblygiad i ymchwilwyr fel sy'n briodol ac yn angenrheidiol yn eu maes ymchwil ac i wella eu cyflogadwyedd. Mae'r sgiliau hyn yn gwella gallu'r myfyrwyr i gwblhau eu hymchwil yn llwyddiannus. Deellir fod datblygiad a defnydd o'r cyfryw sgiliau yn allweddol i lwyddiant myfyrwyr ymchwil uwchraddedig a'u gallu i gynnal dysgu drwy gydol eu gyrfa boed mewn swydd academaidd neu mewn cyflogaeth arall. Anogir myfyrwyr ymchwil i gydnabod gwerth sgiliau trosglwyddadwy sy'n eu caniatáu i berchnogi a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, yn ystod ac ar ôl eu rhaglen astudio.

6.2 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu lefel briodol o hyfforddiant i'w holl fyfyrwyr uwchraddedig. Fel rhan o'r
ymrwymiad hwn mae'r Brifysgol wedi sefydlu Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr i'r sefydliad. Mae'n dechrau gyda digwyddiad ymsefydlu, ac yna ceir set o fodiwlau ymchwil a ddarperir yn ganolog, a'u cefnogi ag amrywiaeth eang o weithdai, cyrsiau hyfforddi byr a gweithgareddau eraill a gynigir trwy Raglen Ymchwilwyr Aberystwyth a anelir at fyfyrwyr ymchwil a staff ymchwil, ac a drefnir gan yr Uned Gwella Dysgu ac Addysgu, ac Ysgol y Graddedigion.

Mae'n ofynnol i'r holl fyfyrwyr ddilyn elfennau penodol o'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr (45 credyd o leiaf ar hyn o bryd o fewn dwy flynedd gyntaf yr astudio ar gyfer myfyrwyr llawn-amser, a 25 credyd ar gyfer myfyrwyr rhan-amser), ond mae croeso hefyd i uwchraddedigion ymuno ag unrhyw agweddau ychwanegol yn y rhaglen, os ydynt yn teimlo y byddai hyn yn cyfoethogi eu set sgiliau ymchwil. Caiff Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr PA, a drefnir dan nawdd Ysgol y Graddedigion, ei hategu â darpariaeth Datblygu Ymchwilwyr penodol i'r pynciau yn yr adrannau unigol yn ogystal â chyrff eraill (er enghraifft, cyfleoedd i ddatblygu Vitae https://www.vitae.ac.uk/spotlight/developing-as-a-researcher) sydd â'r bwriad o arfogi myfyrwyr â sgiliau ymchwil penodol sy'n unigryw i'w disgyblaeth ymchwil neilltuol ac i anghenion unigol y myfyriwr.

6.3 Yn gyffredinol, amcan Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr y Brifysgol yw galluogi i'r ymchwil gael ei gwblhau'n fwy effeithlon, rhoi amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy a gwerthadwy i'r myfyrwyr a helpu i ddarparu amgylchedd ymchwil lle gall myfyrwyr o ddisgyblaethau gwahanol gyfarfod yn rheolaidd a chyd-drafod materion ymchwil cyffredin. Mae'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr hefyd yn ymdrin â gofynion hyfforddi sgiliau ar gyfer y datganiadau Datblygu Ymchwilwyr amlinellir yn y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr [gweler atodiad 2]:

(a) Gallu deallusol a gwybodaeth
(b) Effeithiolrwydd personol
(c) Trefn a Rheolaeth Ymchwil
(ch) Ymgysylltu, dylanwad ac effaith

6.4 Bydd hyfforddiant datblygu gorfodol i ymchwilwyr (er enghraifft yn dilyn gofynion y cyngor ymchwil) yn cael ei nodi'n glir i fyfyrwyr ymchwil newydd yn ystod y broses ymsefydlu. Dim ond ar ôl derbyn cymeradwyaeth Pennaeth Ysgol y Graddedigion y caiff myfyrwyr eu heithrio o hyfforddiant gorfodol, os gallant

ddangos eu bod wedi cwblhau rhaglen gyfatebol o hyfforddiant ar lefel uwchraddedig, naill ai yn y Brifysgol hon neu mewn man arall, neu eu bod wedi sicrhau sgiliau o'r fath mewn cyflogaeth berthnasol. Y Bwrdd Astudiaethau Datblygu Ymchwilwyr, y
mae'r arholwr allanol yn aelod ohono, sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr, a'r Bwrdd hefyd yw'r bwrdd arholi ar gyfer y modiwlau ymchwil canolog. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y modiwlau ymchwil a ddarperir yn ganolog.

6.5 Caiff cynnwys yr hyfforddiant datblygu ymchwilwyr mewn gwahanol feysydd o weithgaredd ymchwil ei bennu gan yr Adrannau a'r Cyfadrannau ar y cyd â Phennaeth Ysgol y Graddedigion a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil, gan roi ystyriaeth i anghenion gwahanol garfannau o uwchraddedigion ac uwchraddedigion unigol, yn codi o'u hamrywiaeth. Bydd anghenion hyfforddiant datblygu ymchwilydd pob myfyriwr unigol yn cael eu dynodi a'u cytuno gan y myfyriwr a'r staff priodol (fel arfer yr arolygwyr mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Adran neu'r staff perthnasol yn y Gyfadran) yn ystod y cyfnod Ymsefydlu, a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn ystod y rhaglen ymchwil a'u diwygio fel bo'n briodol. Y Pwyllgor Monitro Ymchwil sy'n gyfrifol am oruchwylio anghenion hyfforddiant datblygu pob myfyriwr a sicrhau eu bod yn cael eu diwallu.

6.6 Pan fydd myfyrwyr uwchraddedig yn cael cyfleoedd i addysgu caiff arweiniad a chymorth priodol eu darparu ar lefel yr adran a/neu'r brifysgol. Os yw'r gweithgaredd hwn yn estyn hefyd at asesu myfyrwyr, bydd hyfforddiant a chymorth yn adlewyrchu hyn. O fewn adrannau bydd uwchraddedigion yn rhan o dîm addysgu mwy o faint er mwyn iddynt allu elwa ar y cymorth a'r mentora a ddarperir gan staff profiadol. Mae'r Rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA) hefyd ar gael i Uwchraddedigion Ymchwil sy'n ymwneud ag addysgu. I wneud cais ar gyfer y rhaglen hon (gyda mynediad ym mis Medi bob blwyddyn), gweler https://www.aber.ac.uk/cy/cdsap/tpau/

6.7 Cyfrifoldeb y Bwrdd Astudiaethau Datblygu Ymchwilwyr yw gweithredu a datblygu'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr a chaiff hyn ei fonitro gan Ysgol y Graddedigion, a fydd yn ceisio adborth rheolaidd gan fyfyrwyr ar gynnwys a'r modd y cyflenwir modiwlau a sesiynau hyfforddi a bydd yn adolygu unrhyw hyfforddiant mewn sgiliau ymchwil a generig yn rheolaidd.

6.8 Dylai myfyrwyr drafod unrhyw broblemau sy'n codi o fewn y fframwaith datblygu ymchwil gyda'u harolygydd/arolygwyr ac, os oes angen, â staff yr Adran neu'r Gyfadran a Phennaeth Ysgol y Graddedigion.

6.9 Os yw ymgeiswyr yn gwybod am unrhyw amgylchiadau personol neu feddygol a allai effeithio ar eu perfformiad mewn arholiad neu waith a asesir, a wneir fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr neu Hyfforddiant Ymchwil yr Adran, rhaid dwyn y rhain i sylw'r Bwrdd Arholi perthnasol cyn iddo gyfarfod.

6.10 Anogir yr holl fyfyrwyr ymchwil gymryd rhan yn y broses Datblygiad Proffesiynol Parhaus, fydd yn eu helpu i ddynodi eu hanghenion ymchwil, ffurfio rhaglen hyfforddi briodol iddynt eu hunain a chadw cofnod o'r hyfforddiant a geir. Byddant yn cael cymorth yn hyn o beth gan Fentor (i fyfyrwyr PhD, yr ail arolygydd fel arfer) a byddant yn cynnal cyfarfodydd adolygu a chynllunio rheolaidd gyda nhw. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr adfyfyrio ar eu dysgu, eu cyflawniad a'u sgiliau o ran eu gwaith academaidd a'u bywyd ehangach, a chynllunio ar gyfer eu datblygiad personol a phroffesiynol yn y dyfodol.

6.11 Tu Hwnt i'r PhD

Mae ymchwilwyr yn gweithio mewn amrywiaeth eang o sectorau gwaith. I'ch helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am gyfeiriad eich gyrfa mae gennym raglen o weithdai gyrfa ar amrywiaeth eang o bynciau, ar gyfer gyrfaoedd yn y byd academaidd a thu hwnt o'r enw 'Tu Hwnt i'r PhD'.

Mae'r gweminarau/gweithdai yn cynnwys: 'Gyrfaoedd y tu allan i'r Byd Academaidd', 'Cynllunio eich Gyrfa Academaidd', 'CV Effeithiol ar gyfer PhD (academaidd ac anacademaidd)', 'Rhwydweithio a Chodi eich Proffil Ar-lein', 'Cyfweliadau Llwyddiannus', a 'Eich PhD y tu allan i'r Byd Academaidd – Diwydiannau Creadigol'.
Ochr yn ochr â rhaglen strwythuredig, bydd Myfyrwyr PhD yn cael cyfle i awgrymu sesiynau pwrpasol ychwanegol drwy gyfrwng cynrychiolydd myfyrwyr eu hadran ymchwil.

## 7. Trefniadau Arolygu

7.1 Mae rolau a chyfrifoldebau pwysicaf myfyrwyr ymchwil uwchraddedig a'u harolygwyr o fewn y fframwaith arolygu wedi eu rhestru isod. Mae pob myfyriwr ymchwil wedi ei leoli mewn adran ac mewn Cyfadran, ond ei brif bwynt cyswllt yn y Brifysgol yw'r arolygwr.

7.2 Mae'n rhaid i'r adrannau sicrhau bod arolygwyr yn aelodau o staff sy'n meddu ar brofiad ymchwil ac arolygu digonol a pherthnasol. Bydd gan bob myfyriwr ymchwil o leiaf un prif arolygwr a fydd, fel arfer, yn rhan o dîm arolygu. Disgwylir i o leiaf ddau aelod o staff arolygu gwaith pob myfyriwr ymchwil. Bydd Adrannau yn hysbysu myfyrwyr ynghylch hyn ar ddechrau eu hastudiaethau, a byddant hefyd yn dewis prif arolygwr i weithredu fel pwynt cyswllt ffurfiol ar gyfer y Brifysgol. Hysbysir myfyrwyr yn eglur gan yr Adran ynghylch rolau'r holl arolygwyr.

7.3 Mae'r berthynas arolygu yn hanfodol bwysig, a dylid sefydlu dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau y naill a'r llall ar y dechrau er mwyn galluogi'r ddau i ddeall sut y cyfranna'r arolygwr at gynorthwyo'r myfyriwr, a lle daw cyfrifoldebau'r arolygwr i ben.

7.4 Mae cyfrifoldebau'r **prif arolygwr/arolygwyr** yn cynnwys, yn bennaf:

(a) meddu ar wybodaeth ddigonol am faes yr ymchwil i roi arweiniad a chyngor cywir ynghylch dichonoldeb rhaglen ymchwil y myfyriwr a'r cynnydd a wneir, ac i hyrwyddo cynhyrchiad gwaith ymchwil o safon uchel;

(b) bod yn atebol i'r adran a'r gyfadran berthnasol am fonitro ac adrodd ar gynnydd yr ymchwil;

(c) sefydlu a chadw cysylltiad rheolaidd â'r myfyriwr yn ôl unrhyw amserlen y cytunwyd arni, a bod ar gael ar adegau priodol i drin a thrafod y gwaith drwy ba bynnag fodd sy'n fwyaf addas o gofio lleoliad y myfyriwr a'r dull astudio (y disgwyliad arferol fyddai 1 awr bob pythefnos dros 44 wythnos neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, fel y bo'n briodol, drwy gydol y 3 blynedd o astudio amser llawn: awr y mis os yn rhan-amser);

(ch) cyfrannu at yr asesiad o anghenion datblygu'r myfyriwr;

(d) darllen drafftiau a ysgrifennwyd gan y myfyriwr a darparu adborth adeiladol ac effeithiol o fewn amser penodedig (fel arweiniad, dylid darparu adborth am bennod o'r gwaith o fewn 3 wythnos waith);

(dd) rhybuddio'r myfyriwr os yw naill ai cynnydd neu safon ei waith ymchwil yn anfoddhaol, a threfnu unrhyw gamau cefnogol sy'n angenrheidiol;

(e) sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r angen i ymarfer uniondeb a'u bod yn cyflawni eu hymchwil mewn modd sy'n cydymffurfio ag egwyddorion moesegol, gan fod yn

ymwybodol hefyd o oblygiadau camymddygiad yng nghyswllt gwaith ymchwil;

(f) sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynghori yng nghyfnod cynnar eu cofrestriad ynghylch yr angen hanfodol i ymatal rhag ffugio canlyniadau ymchwil neu lên-ladrad;

(ff) helpu'r myfyriwr i gymysgu ag eraill sy'n gweithio o fewn y maes ymchwil, er enghraifft drwy annog y myfyriwr i fynd i gynadleddau perthnasol, ei gefnogi i geisio nawdd ar gyfer y fath ddigwyddiadau, ac i gyflwyno papurau cynhadledd ac erthyglau i gyfnodolion cydnabyddedig lle y bo'n briodol;

(g) ymarfer unrhyw ddyletswyddau ffurfiol perthnasol mewn perthynas â rheoliadau iechyd a diogelwch;

(ng) cynnal yr arbenigedd arolygu angenrheidiol, gan gynnwys y sgiliau priodol, i gyflawni pob agwedd ar y rôl arolygu yn foddhaol, a manteisio ar gyfleoedd perthnasol i barhau i hybu datblygiad proffesiynol;

(h) sicrhau bod digon o amser y gellir ei lwyr neilltuo i anghenion pob myfyriwr ymchwil unigol y maent yn eu harolygu;

(i) sicrhau bod y myfyriwr yn derbyn cydnabyddiaeth

ddyledus am unrhyw gyfraniad i brosiect ar y cyd, a rhoi cyngor ynghylch cyhoeddi gwaith academaidd a hawliau eiddo deallusol;

(l) darparu cymorth bugeiliol effeithiol a/neu gyfeirio'r myfyriwr at ffynonellau cymorth eraill o'r fath, gan gynnwys cynghorwyr myfyrwyr (a'u tebyg), staff y Gyfadran ac eraill yng nghymuned academaidd y myfyriwr;

(ll) sicrhau bod y myfyriwr yn ymwybodol o ffynonellau cyngor ar lefel y brifysgol, gan gynnwys y cyngor ar yrfaoedd a pholisi cyfle cyfartal;

(m) meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb personol mewn myfyrwyr ymchwil am ansawdd eu hymchwil;

(n) darllen a rhoi sylwadau ar y traethawd ymchwil yn ei gyfanrwydd cyn cyflwyno, a rhoi adborth ynglŷn â'i gryfderau a'i ddiffygion.

7.5 Fel rheol, dyletswydd yr ail arolygwr yw darparu cymorth i'r prif arolygwr a darparu cyngor i'r myfyriwr ar faterion mwy cyffredinol neu ar adegau pan nad yw'r prif arolygwr ar gael (er enghraifft pan fo'r prif arolygwr ar absenoldeb astudio). Dylai ail arolygwyr ddisgwyl bod yn bresennol mewn o leiaf un cyfarfod rhwng y myfyriwr a'r prif arolygwr bob tymor, ac fe ddylent ddarllen drafftiau o waith y myfyriwr fel y gallant wneud cyfraniad ystyrlon i'r prosesau monitro ffurfiol. Gallai'r ail arolygwr hefyd fod yn fentor Datblygu Proffesiynol Parhaus y myfyriwr. Nid oes rhaid i'r ail arolygwr fod yn arbenigwr yn y pwnc ac ni ddisgwylir i'r ail arolygwr gamu i'r adwy i gymryd lle'r prif arolygwr yn barhaol os bydd y prif arolygwr yn peidio â bod yn gysylltiedig â gwaith arolygu gwaith y myfyriwr am ryw reswm.

Os bydd myfyrwyr yn anfodlon neu os oes ganddynt gŵyn ynghylch y prif arolygwr, fe'u cynghorir i drafod y mater â'r ail arolygwr neu â staff yr Adran/Cyfadran yn y lle cyntaf. Os nad oes modd datrys y mater ar y lefel honno, dylai'r myfyrwyr ddilyn y drefn gwyno a ddisgrifir yn y Canllawiau hyn.

Os yw'r gwaith arolygu yn cael ei wneud ar y cyd, dyletswydd y ddau arolygwr yw rhoi cyngor academaidd.

7.6 Mae cyfrifoldebau'r myfyrwyr ymchwil yn cynnwys, yn bennaf:

(a) cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad personol a phroffesiynol eu hunain;

(b) derbyn cyfrifoldeb am eu hymchwil eu hunain yn y pen draw ac, yn arbennig, am gyfeiriad y prosiect ymchwil fel y mae'n datblygu a'r agweddau arno sy'n torri tir newydd, a chadw cysylltiad rheolaidd â'u harolygwr yn unol ag amserlen y cytunwyd arni;

(c) sicrhau bod cynnydd boddhaol yn cael ei wneud o ran y rhaglen waith a'r amserlen y cytunwyd arni â'r arolygwr, gan gynnwys cyflwyno drafftiau ysgrifenedig o fewn cyfnodau y cytunwyd arnynt a pharatoi yn ddigonol ar gyfer cyfarfodydd gyda'r arolygwyr;

(ch) sicrhau eu bod yn dweud wrth yr arolygwr am unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r ymchwil, ac yn rhoi eglurhad boddhaol am unrhyw fethiant i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu i gwrdd ag ymrwymiadau eraill, fel y gellir cynnig arweiniad priodol;

(d) darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ar yr ymchwil, fel y myn yr arolygwr neu reolau'r Adran neu'r Gyfadran. Ar ben hynny, paratoi adroddiad cynnydd ffurfiol, byr bob blwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Monitro Myfyrwyr Ymchwil;

(dd) datblygu, drwy drafod â'r arolygwr, amserlen ar gyfer gwneud cynnydd a chyflwyno'r traethawd ymchwil mewn modd amserol;

(e) penderfynu, trwy drafod â'r arolygwr ac yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni, pryd i gyflwyno'r traethawd ymchwil;

(f) sicrhau eu bod yn cyflwyno'r traethawd ymchwil o fewn y terfyn amser hwyaf a nodir yn Nhabl 1 (tudalen 15), a bod cysylltiad yn cael ei gadw â'r arolygwr yn ystod y cyfnod ysgrifennu;

(ff) cadw cofnodion clir, cywir, manwl a hawdd mynd atynt o'r gwaith a gyflawnwyd, beth bynnag fo maes yr ymchwil, a chadw cofnod llawn o'r sesiynau arolygu (yr arolygwyr i gytuno ar hyn) a chofnod o'u cynnydd;

(g) nodi eu hanghenion hyfforddiant a datblygu eu hunain, hysbysu'r arolygwr yn eu cylch, a sicrhau eu bod yn cyflawni gofynion y Brifysgol o ran datblygu sgiliau a hyfforddiant a gwneud defnydd priodol o gyfleusterau dysgu neu addysgu sydd ar gael gan y Brifysgol, a chwblhau unrhyw raglen hyfforddiant sy'n ofynnol neu'n cael ei threfnu gan neu drwy'r Brifysgol neu drydydd person;

(ng) dweud wrth eraill o fewn y gymuned academaidd am ddarganfyddiadau'r gwaith ymchwil, fel y bo'n briodol, a hynny ar bapur ac ar lafar;

(h) derbyn cyfrifoldeb yn y pen draw am eu hymgeisyddiaeth eu hunain, a sicrhau eu bod yn hysbysu'r arolygwr, yr Adran neu'r Gyfadran a'r Gofrestrfa Academaidd yn ddi-oed ynghylch unrhyw amgylchiadau a allai olygu bod yn rhaid newid y dull astudio neu estyn, ohirio neu dynnu'r cofrestriad yn ôl;

(i) sicrhau eu bod yn gyfarwydd â rheoliadau a pholisïau'r brifysgol sy'n cael effaith arnynt hwy, neu'r rheini o eiddo unrhyw bartïon eraill, gan gynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â'u cymhwyster, iechyd a diogelwch, eiddo deallusol, ymddygiad annheg a chanllawiau ar ymchwil foesegol;

(l) gweithredu'n gyffredinol fel aelod cyfrifol o gymuned academaidd y Brifysgol.

7.7 Os yw arolygwr yn absennol am gyfnodau hir (h.y. rhagor na mis) neu'n gadael y Brifysgol, bydd yr adran yn gwneud darpariaeth briodol i gefnogi ymchwil y myfyriwr, a bydd yr adran yn trafod gyda'r myfyriwr ynghylch hynny ac yn rhoi'r manylion iddo cyn absenoldeb neu ymadawiad yr arolygwr. Gallai arolygwyr barhau i gyflawni eu dyletswyddau arolygu pan fyddant ar gyfnod astudio neu gyfnod sabothol, ond pe na bai hynny'n digwydd, dylid rhoi gwybod i'r myfyriwr am y trefniadau.

7.8 Mae gan y brifysgol weithdrefn lle gall myfyrwyr godi unrhyw bryderon ynglŷn â'u harolygiaeth a gofyn am newid arolygwr. Dylai pob myfyriwr deimlo'n sicr y bydd pryderon o'r fath yn cael eu cymryd o ddifrif ac y gwneir pob ymdrech i roi trefniadau arolygu ar waith y mae myfyrwyr yn gyfforddus â nhw. Mae angen i fyfyrwyr fod yn gyfrifol am wneud i'r trefniadau hyn weithio'n iawn.

7.9 Mae gan bob Cyfadran o leiaf un Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig sy'n gyfrifol yn

gyffredinol am gynnydd academaidd a lles pob myfyriwr ymchwil uwchraddedig yn y Gyfadran honno, ac y gall myfyrwyr ymchwil unigol gysylltu â hwy.

7.10 Mae Atodiad 3 y Cod hwn yn rhoi arweiniad i fyfyrwyr sy'n ystyried gwneud cais i newid eu tîm arolygu, boed hynny oherwydd newid yng nghyfeiriad yr ymchwil neu yn sgil unrhyw broblemau yn eu perthynas gyda'r arolygydd.

## 8. Cynrychiolaeth

8.1 Rhoddir cyfle i fyfyrwyr ymchwil ddarparu adborth ynghylch y ddarpariaeth academaidd a'r cyfleusterau cymorth sydd ar gael iddynt, ac ynghylch materion lles mwy cyffredinol.

8.2 Cynrychiolir myfyrwyr ar Bwyllgorau Ymgynghorol Staff: Myfyrwyr yr Adrannau ac ar Grŵp Ymgynghorol y Myfyrwyr Ymchwil. Anfonir cofnodion cyfarfodydd Grŵpr Ymgynghorol y Myfyrwyr Ymchwil ymlaen i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil, sy'n goruchwylio graddau ymchwil uwch-raddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth. Anogir myfyrwyr i gymryd rhan yng ngwaith y cyrff sy'n eu cynrychioli gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr. Ceir cynrychiolaeth o blith y myfyrwyr ar brif bwyllgorau'r Brifysgol, e.e. Bwrdd Academaidd, Pwyllgor Graddau Ymchwil a'r Senedd.

8.3 Bydd y Brifysgol yn ymateb i'r adborth a roir gan fyfyrwyr uwchraddedig, boed hwy'n cael eu cyfathrebu drwy sianelau cynrychiolaidd neu'n cael eu gwneud yn unigol neu'n gyfrinachol.

## 9. Cwynion

9.1 Mae gan y Brifysgol drefn gwyno ffurfiol sydd wedi'i chyhoeddi ar y we https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/complaints/.

Yn ôl y drefn hon:

1. Dylid datrys anghydfod yn anffurfiol, os yn bosibl, a hynny ar y lefel isaf bosibl;
2. Os ceisiwyd datrys y mater yn anffurfiol ond heb lwyddiant, gall y myfyriwr gyflwyno cwyn ysgrifenedig i Bennaeth yr Adran;
3. Os na ellir datrys y mater gyda'r cam ffurfiol hwn, gellir gofyn am adolygiad terfynol o'r gŵyn;
4. Unwaith i'r holl drefniadau mewnol gael eu dihysbyddu, gall ymgeisydd gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol *(OIA)*. Dylid gwneud y fath gŵyn drwy lenwi Ffurflen Gais y Cynllun Cwynion Myfyrwyr a'i hanfon, ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol, i'r OIA o fewn tri mis i'r dyddiad ar y *Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau* gan y Brifysgol ar ôl i'r gweithdrefnau mewnol ddod i ben. Gellir cael ffurflen i'w lawrlwytho o wefan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol: **www.oiahe.org.uk**.

## 10. Monitro Cynnydd

10.1 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod cynnydd yr holl fyfyrwyr ymchwil yn cael ei fonitro ar adegau priodol ac o leiaf ar ddiwedd pob blwyddyn o'u cofrestriad. Bydd y proses monitro yn cael ei seilio ar system o adroddiadau, gan y myfyriwr a'r arolygwyr, i'w hystyried gan yr adran berthnasol a'r Pwyllgor Monitro Ymchwil. Mae'r monitro yn cynnwys asesiad ar ôl cytuno ar gynllun gweithredu yn y cyfarfod. Bydd yr adrannau yn hysbysu'r myfyrwyr ynghylch pryd y dylid cyflwyno'r cyfryw adroddiadau, ac yn eu cynghori ynglŷn â'u cynnwys. Sylwer bod adrannau hefyd yn gorfod asesu goblygiadau moesegol prosiectau ymchwil myfyrwyr ar ddechrau'r rhaglen astudio a'u hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'u trefniadau monitro.

10.2 I fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar raglen PhD, mae cyfnod prawf o un flwyddyn academaidd ar gyfer ymgeiswyr amser llawn a dwy flynedd academaidd ar gyfer ymgeiswyr rhan-amser, oni bai eu bod wedi eu rhyddhau o'r cyfnod prawf drwy ganiatâd yr adran a Phennaeth Ysgol y Graddedigion o dan y rheoliadau priodol. Bydd y penderfyniad i ganiatáu myfyrwyr i fynd yn eu blaen ar ôl y cyfnod prawf yn cael ei wneud ar ôl i hynny gael ei argymell i'r Pwyllgor Monitro Ymchwil. Mae'r Pwyllgor

hwnnw wedyn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil. Mewn achosion o'r fath dylai cymeradwyaeth yr adran fod wedi ei seilio ar ddarn sylweddol o waith ysgrifenedig (fel rheol, pennod neu ddwy ynghyd â chynnig a chynllun ymchwil llawn) a ddarllenwyd gan brif arolygwr yr ymgeisydd YN OGYSTAL AG aelod arall o'r staff (yr ail arolygwr efallai). Ar gyfer unrhyw drefniadau adrannol ychwanegol a phenodol, gweler llawlyfrau'r adran.Ystyrir ei bod yn arfer da i bwyllgor annibynnol gyfweld myfyrwyr yn rhan o'r broses hon, i asesu cynnydd ac i roi cyngor ac anogaeth.

10.3 Gall myfyriwr sydd wedi cofrestru ar gyfer gradd ymchwil Meistr wneud cais i uwchraddio i radd PhD. Bydd y fath geisiadau yn cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Monitro Ymchwil, ar ôl i'r cais gael ei argymell gan adran y myfyriwr. Yn y fath achosion, dylai argymhelliad yr adran fod wedi ei seilio ar ddarn sylweddol o waith ysgrifenedig (fel rheol, pennod neu ddwy ynghyd â chynnig a chynllun ymchwil llawn) a ddarllenwyd gan arolygwr yr ymgeisydd YN OGYSTAL AG aelod arall o'r staff. Ar gyfer unrhyw drefniadau adrannol ychwanegol a phenodol, gweler llawlyfr yr adran. Rhaid i fyfyrwyr fedru ariannu eu cyfnod astudio estynedig.

10.4 Os dyfernir bod cynnydd myfyriwr yn peri pryder, nodir hyn gan eu Hadran neu'u Cyfadran a rhoddir cyfle i'r myfyriwr ddangos cynnydd boddhaol o fewn i gyfnod a nodir. Bydd methu â gwneud hyn yn golygu fel arfer bod y Pwyllgor Monitro Ymchwil yn penderfynu bod cynnydd y myfyriwr yn anfoddhaol. Bydd Ysgol y Graddedigion neu'r Gofrestrfa Academaidd yn cysylltu â'r myfyriwr os ceir penderfyniad o'r fath.

10.5 Os dyfernir bod cynnydd academaidd myfyriwr ymchwil uwchraddedig yn anfoddhaol, gall gyflwyno apêl ysgrifenedig yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Monitro Ymchwil. Ymdrinnir â'r fath apeliadau yn unol â'r Rheoliad Academaidd ar Gynnydd Academaidd: gweler **https://www.aber.ac.uk/cy/academic- registry/handbook/regulations/academic-progress/**

## 11. Tynnu'n Ôl

Gall myfyrwyr cofrestredig nad ydynt yn gallu parhau â'u gwaith ymchwil neu nad ydynt yn dymuno gwneud hynny dynnu'n ôl o'u hastudiaethau naill ai dros dro neu'n barhaol. Ymhlith yr amgylchiadau a all beri i fyfyriwr ystyried tynnu'n ôl dros dro mae salwch, problemau teuluol difrifol, anawsterau ariannol, derbyn swydd neu gyfrifoldebau gwaith ychwanegol. Dylai myfyrwyr drafod unrhyw gynlluniau i dynnu'n ôl â'u hadran yn rhan o'r broses tynnu'n ôl. Dylent ystyried yn ofalus oblygiadau ariannol tynnu'n ôl yn ogystal â'r golygiadau fisa, yn arbennig os oes ganddynt noddwr ariannol. Dylid sicrhau eu bod yn cael cyngor priodol. Gall myfyrwyr wneud cais i dynnu'n ôl ar-lein trwy eu Cofnod Myfyriwr ar y we: https://studentrecord.aber.ac.uk/cy/
Ni all myfyrwyr sydd yn eu cyfnod ysgrifennu dynnu'n ôl. Os ydynt angen rhagor o amser i gwblhau eu traethodau ymchwil, rhaid iddynt wneud cais am estyniad drwy Ysgol y Graddedigion.

## 12. Y Cyfnod Ysgrifennu

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr gwblhau eu traethodau ymchwil cyn diwedd cyfnod eu cofrestriad, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Mae'n rhaid i fyfyrwyr ymchwil nad ydynt yn llwyddo i gwblhau'r gwaith ymchwil ac ysgrifennu'r traethawd ymchwil yn ystod cyfnod y cofrestriad wneud hynny o fewn y terfyn amser hwyaf a ganiateir ar gyfer cyflwyno traethodau ymchwil, fel y nodir yn Nhabl 1 (tudalen 16). Bydd arolygwyr yn helpu i sicrhau bod eu myfyrwyr yn cadw o fewn y cyfnod hwyaf hwn, ac yn darparu arweiniad a chymorth mewn perthynas â'r proses o ysgrifennu'r gwaith hyd at yr amser cyflwyno.

Efallai y bydd angen i fyfyrwyr sydd am barhau i ddefnyddio adnoddau'r labordai ar ôl i gyfnod eu cofrestriad ddod i ben gofrestru a thalu ffi.

## 13. Estyniadau

Os nad yw myfyrwyr yn gallu cyflwyno erbyn eu dyddiadau cau oherwydd amgylchiadau eithriadol, gall eu hadrannau wneud cais am estyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r traethawd ymchwil. Ystyrir

y ceisiadau hyn gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion a fydd, mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, yn caniatáu estyniadau o hyd at ddeuddeng mis fel arfer, a hynny am resymau megis ymrwymiadau proffesiynol y tu hwnt i'r arfer, problemau

meddygol, trafferthion teuluol difrifol, seiliau tosturiol, neu anawsterau ymchwil nas rhagwelwyd. Rhaid cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r cais ac amserlen ar gyfer cwblhau. Mae'r meini prawf a'r trefniadau ar gyfer estyniadau i raddau uwch i'w cael ar y we ar: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/res- degrees/

14. Cyflwyno, Arholi, Canlyniadau ac Apelio

14.1 Pan fo'r myfyriwr a'r arolygwr yn fodlon bod y myfyriwr yn mynd i fod mewn sefyllfa i gyflwyno mewn byr o dro, dylai'r myfyriwr geisio ffurflen 'Bwriad i Gyflwyno' a'r Dogfennau Cyflwyno angenrheidiol gan naill ai'r Gofrestrfa Academaidd, yr Adran neu ar-lein. Gellir cael ffurflen 'Bwriad i Gyflwyno' oddi ar y we hefyd: https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/pg-issues/research/submit/ a dylid ei llenwi a'i hanfon i Ysgol y Graddedigion o leiaf 3 mis cyn cyflwyno go iawn (efallai y bydd angen gwneud hyn yn gynt ar gyfer graddau PhD ymarferol). Mae'r Dogfennau Cyflwyno yn cynnwys cyngor ynghylch cyflwyno traethodau ymchwil, a'r datganiadau a'r crynodeb sy'n rhaid eu cyflwyno gyda'r traethawd. Bydd Ysgol y Graddedigion yn sicrhau bod y myfyriwr wedi cyflwyno o fewn y terfyn amser. Ni ellir asesu'r traethawd os nad yw'r myfyriwr wedi cyflwyno o fewn y terfyn amser. Os oes unrhyw broblem, cynghorir y myfyriwr ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud cyn y gellir arholi'r traethawd. Sylwer y gall gymryd tua tri mis i arholi'r traethawd yn y lle cyntaf. Atgoffir ymgeiswyr y dylent wneud datganiad, yn unol â Rheoliadau'r Brifysgol, os yw eu harholwr/harholwyr allanol enwebedig erioed wedi eu cynghori neu wneud sylwadau yn benodol ar y gwaith y maent yn ei gyflwyno i'w arholi (nid yw hyn yn berthnasol i ailgyflwyniadau lle mae'r un arholwr allanol y cael ei ddefnyddio). At hynny, dylai myfyrwyr ddatgan unrhyw berthynas bersonol â'r arholwr allanol arfaethedig.

Bydd y traethawd ymchwil yn cael ei gyflwyno yn electronig. Mae hyn yn ein galluogi i'w archwilio am Ymddygiad Academaidd Annerbyniol posibl.

Bydd ymgeisyddiaeth myfyrwyr nad ydynt yn cyflwyno eu gwaith erbyn y dyddiad cau yn dod i ben ac ni fyddant yn gymwys i gael y radd os nad ydynt wedi cael estyniad.

Dylai myfyrwyr gadw cyswllt agos â'i harolygwyr wrth iddynt agosáu at y cyfnod cyflwyno a dylent sicrhau bod cyfle gan yr arolygwyr i roi sylwadau ar y drafftiau.

14.2 Ni ddylai testun y traethawd ymchwil (gan hepgor atodiadau a chyfeiriadau) fod yn hwy na 100,000 o eiriau yn achos PhD, a 60,000 o eiriau yn achos DProf neu MPhil.

14.3 Bydd y traethawd ymchwil ysgrifenedig hefyd yn cael ei arholi drwy v*iva voce* neu arholiad llafar. Cynhelir yr arholiad yma gan fwrdd arholi a fydd yn cynnwys cadeirydd, un arholwr mewnol ac un arholwr allanol. Pan fo ymgeiswyr wedi astudio o dan reoliadau'r staff, neu efallai wedi dod yn aelodau o'r staff cyn i'w traethawd ymchwil gael ei arholi, penodir ail arholwr allanol yn lle'r arholwr mewnol os nad ydynt yn sicr, dylai'r Adrannau gysylltu â Phennaeth Ysgol y Graddedigion. Mae'r cadeirydd yno i sicrhau bod yr arholiad yn cael ei gynnal yn briodol yn unol â'r rheoliadau. Yr arholwr mewnol (nid yr arolygwr mohono) a'r arholwr allanol a fydd yn gofyn y rhan fwyaf o'r cwestiynau. Bydd yr arholwr allanol yn arbenigwr ar faes ymchwil y myfyriwr ac yn deall gofynion DProf, PhD neu radd Ymchwil Meistr. Caiff ef/hi ei enwebu/henwebu gan yr adran academaidd a'i gymeradwyo/chymeradwyo gan y pwyllgor cymeradwyo. Bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil a'r Bwrdd Academaidd yn cael adroddiadau am arholwyr cymeradwy. Drwy wahoddiad y gadair, a chyda chaniatâd ymlaen llaw gan yr ymgeisydd gall yr arolygwr fod yn bresennol ar gyfer y *viva*, ond dim ond pan wahoddir ef i wneud hynny gan y cadeirydd y bydd yn cael siarad. Mae canllawiau'r Brifysgol ar arholiadau llafar wedi eu nodi yn Atodiad 1.

14.4 Nid ffurfioldeb syml mo'r arholiad llafar. Mae'n rhan hanfodol o'r arholiad ar gyfer gradd ymchwil. Mae Ysgol y Graddedigion yn darparu gweithdy Hyfforddiant Sgiliau – 'Paratoi ar gyfer eich

Arholiad Llafar' – sy'n canolbwyntio ar anghenion myfyrwyr sy'n rhagweld y cânt eu harholi o fewn y 12 mis nesaf. Cyn y *viva*, bydd yr arholwyr yn cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig annibynnol ar wahân ac yn defnyddio'r *viva* i fodloni eu hunain
mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r traethawd ymchwil a bod yr ymgeisydd yn meddu ar wybodaeth gyffredinol dda o faes yr
ymchwil. Bydd yr arholwyr yn nodi rhinweddau'r traethawd
ymchwil, ac yn rhoi cyfle i'r myfyriwr egluro unrhyw aneglurder ac amddiffyn unrhyw wendidau a ganfyddasant. Byddant yn cynhyrchu adroddiad ar y cyd, ac yna'n pennu a yw'r traethawd ymchwil yn bodloni meini prawf y Brifysgol am ddyfarnu graddau ymchwil.

14.5 Gellir crynhoi'r opsiynau sy'n agored i arholwyr PhD fel a ganlyn:

- dyfarnu'r PhD (a fydd fel arfer angen cywiriadau, a'r rheini fel arfer i'w cwblhau o fewn naill ai 4 wythnos neu 6 mis i'r *viva*);
- peidio â dyfarnu'r PhD, ond gadael i'r ymgeisydd ailgyflwyno'r traethawd ymchwil ar gyfer PhD o fewn blwyddyn ar ôl i'r ymgeisydd gael ei hysbysu'n ffurfiol ynghylch y canlyniad (gan dalu ffi arholiad). Rhaid i arholwyr nodi, os na lwyddir i ailgyflwyno, a oes modd dyfarnu MPhil i'r traethawd ymchwil;
- peidio â dyfarnu PhD – dim ailgyflwyno;
- peidio â dyfarnu PhD, ond dyfarnu MPhil (a fydd angen mân gywiriadau neu gywiriadau teipograffyddol o bosibl, a'r rheini i'w cwblhau o fewn 4 wythnos i'r *viva*);
- peidio â dyfarnu PhD, ond caniatáu ailgyflwyno ar gyfer MPhil o fewn blwyddyn i'r ymgeisydd gael ei hysbysu'n ffurfiol ynghylch y canlyniad.

Gellir crynhoi'r opsiynau sy'n agored i arholwyr MPhil fel a ganlyn:

- dyfarnu'r MPhil (a fydd fel arfer angen cywiriadau, a'r rheini fel arfer i'w cwblhau o fewn 4 wythnos neu 12 wythnos ar ôl y *viva*);
- peidio â dyfarnu'r MPhil ond gadael i'r ymgeisydd ailgyflwyno'r traethawd ymchwil ar gyfer MPhil o fewn blwyddyn (gan dalu ffi arholiad);
- peidio â dyfarnu'r MPhil – dim ailgyflwyno.

14.6 Bydd yr arholwyr yn dweud wrth yr ymgeisydd yn anffurfiol ynghylch y canlyniad yn syth ar ôl y *viva* a darparu ffurflen canlyniad interim. Os taw pasio gyda chywiriadau yw'r canlyniad, bydd yr adran yn cadarnhau pryd ac i bwy y dylid cyflwyno'r cywiriadau. Bydd y Cadeirydd yn anfon y ffurflenni canlyniad i Ysgol y Graddedigion, a fydd yn rhoi gwybod i'r Gofrestrfa Academaidd. Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn rhoi gwybod i'r myfyriwr yn ffurfiol os bydd angen iddynt ailgyflwyno ac o'r canlyniad terfynol. Os nad yw'r traethawd ymchwil yn pasio neu os oes angen ailysgrifennu'r traethawd, cyfrifoldeb Cadeirydd y bwrdd arholi yw sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael sylwadau manwl sy'n egluro pam nad yw'r traethawd ymchwil wedi pasio ac sy'n dangos, mewn termau cyffredinol, pa waith pellach y gall fod angen i'r ymgeisydd ei gyflawni. Dyletswydd y myfyriwr wedyn yw sicrhau bod y traethawd sy'n cael ei ailgyflwyno yn bodloni'r pwyntiau hynny yn glir. Yn ogystal, gall arholwyr gynghori ymgeiswyr llwyddiannus ynglŷn â sut y gellid paratoi'r gwaith ar gyfer ei gyhoeddi.

14.7 Os nad yw traethawd ymchwil yn cael ei dderbyn gan yr arholwyr, dim ond unwaith y gall yr ymgeisydd ei ailgyflwyno. **Rhaid** gwneud hynny o fewn y terfyn amser a nodir yn y canlyniad swyddogol neu bydd yr ymgeisydd yn methu trwy beidio â chyflwyno. Cynhelir ail *viva voce* i arholi'r traethawd ymchwil a ailgyflwynwyd. Gellir hepgor yr ail *viva* mewn achosion o basio rhwydd neu o dan amgylchiadau eithriadol.

14.8 Os nad yw'r arholwyr yn gytûn ynghylch yr hyn y dylid ei argymell, bydd ail arholwr allanol fel arfer yn cael ei benodi. Bydd penderfyniad yr ail arholwr allanol yn derfynol.

14.9 Bydd gan bob ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr arholwyr fel y nodir yn y Drefn Apelio (Graddau Ymchwil Uwchraddedig) sydd ar gael gan y Gofrestrfa Academaidd. Rhaid cyflwyno'r apêl ar bapur a hynny ar un neu ragor o'r seiliau canlynol:

- diffygion neu afreoleidd-dra yn y dull y cynhaliwyd yr arholiad sy'n bwrw amheuaeth ar benderfyniad yr arholwyr;
- amgylchiadau personol eithriadol a effeithiodd ar berfformiad yr ymgeisydd ac nas adroddwyd yn eu cylch wrth y Bwrdd Arholi cyn iddo gyfarfod, a hynny am resymau da;
- tystiolaeth o ragfarn, tuedd, neu asesu annigonol ar ran un neu ragor o'r arholwyr;
- arolygiaeth annigonol, nas adroddwyd yn ei chylch yn gynharach am resymau eithriadol.

Nid yw apeliadau sy'n taflu amheuaeth ar grebwyll academaidd yr arholwyr yn dderbyniol.

Nid byrddau arholi yw paneli apêl ac ni chânt benderfynu dyfarnu gradd ai peidio. Gall panel apêl gadarnhau canlyniad bwrdd arholi, gofyn am gynnal yr arholiad unwaith eto, gydag arholwyr newydd o bosib neu caniatáu i'r ymgeisydd ailysgrifennu ac ailgyflwyno'r traethawd.

14.10 Bydd y myfyrwyr hynny sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer y radd yn derbyn eu tystysgrif o fewn ychydig wythnosau neu gallant ei chasglu mewn seremoni raddio. Yna gall myfyrwyr ddod i'r graddio i ddathlu eu llwyddiant.

14.11 Unwaith mae'r proses arholi wedi ei gwblhau ac os yw'r ymgeisydd yn llwyddiannus, bydd y traethawd ymchwil, wedi iddo gael ei gywiro, yn cael ei adneuo yng Nghadwrfa Ymchwil ar-lein y Brifysgol. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw cael caniatâd i gynnwys deunydd hawlfraint trydydd parti (e.e. lluniau, mapiau, ac ati) cyn cyflwyno'r traethawd ymchwil. Dylai'r myfyriwr roi gwybod i'r Gwasanaethau Gwybodaeth os nad oedd hyn yn bosibl, neu os na chawsoch ganiatâd. O dan amgylchiadau eithriadol, gall myfyrwyr ddewis peidio â chyflwyno gwaith i'r gadwrfa electronig, am gyfnod byr fel arfer. Ni fydd gwaith myfyrwyr ar y cwrs PhD Ysgrifennu Creadigol yn cael ei gyflwyno yn awtomatig, ond gallant ddewis gwneud hynny os mynnant. Mae rhai noddwyr ariannol yn nodi mynediad agored i'r traethawd ymchwil fel un o'u hamodau ariannu.

14.12 Os yw'r traethawd ymchwil yn aflwyddiannus, bydd yn cael ei ddychwelyd at yr ymgeisydd.

DS. Rhaid dileu nodiadau neu sylwadau a wneir gan arholwyr ar ymyl y ddalen cyn i'r traethawd gael ei roi i lyfrgelloedd neu ei ddychwelyd i'r ymgeisydd.

## 15. Cydbwysedd Rhwng Gweithio ac Astudio

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod nifer o fyfyrwyr yn ariannu eu hastudiaethau uwchraddedig eu hunain, a dim ond trwy gael gwaith cyflogedig y gallant wneud hynny. Mae hefyd yn annog uwchraddedigion i ymgymryd â dyletswyddau dysgu neu arddangos am dâl, neu waith gwirfoddol, er mwyn cael profiad a datblygu sgiliau a fydd yn eu paratoi ar gyfer swyddi ar ôl iddynt raddio, yn ogystal â chyfrannu at eu hadrannau neu'r gymuned ehangach. Ond, mae'n rhaid i fyfyrwyr sicrhau eu bod yn cael y cydbwysedd cywir rhwng gwaith cyflogedig ac amser astudio i'w galluogi i gwblhau eu graddau ar amser ac i'r lefel ofynnol. Mae'n

rhaid i fyfyrwyr hefyd barchu telerau unrhyw ysgoloriaeth neu noddwr neu fisas.

Dylai myfyrwyr (a'r staff sy'n eu cynghori) nodi'r canlynol wrth ystyried gwaith am dâl wrth astudio:

- Gall myfyrwyr sydd wedi derbyn AberDoc ymgymryd â chyfanswm cyfyngedig o ddyletswyddau dysgu neu arddangos ond ni chânt ymgymryd ag unrhyw waith cyflogedig arall heb ganiatâd gan y Dirprwy Is-Ganghellor.
- Mae gan Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) eu rheolau eu hunain ynghylch gwaith cyflogedig a dylai'r myfyrwyr edrych ar y rhain a'u parchu.
- Gall noddwyr eraill hefyd osod cyfyngiadau ar gyfanswm neu natur y gwaith cyflogedig a ganiateir, a chyfrifoldeb y myfyriwr yw anrhydeddu'r cyfyngiadau hyn.
- Ni ddylai myfyrwyr rhyngwladol sydd â fisa weithio mwy nag 20 awr yr wythnos yn ystod y tymor neu byddant yn torri amodau'r fisa. Dylai myfyrwyr rhyngwladol edrych yn ofalus ar amodau eu fisa o ran gweithio yn ystod y gwyliau a gweithio yn ystod y cyfnod ysgrifennu.
- Mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a chyrff eraill sy'n cynrychioli lles y myfyrwyr yn cydnabod pwysigrwydd gwaith rhan-amser i nifer o fyfyrwyr, ond hefyd yr effaith negyddol posibl y gallai gwaith o'r fath ei gael ar eu perfformiad. Bydd effaith gwaith rhan-amser yn amlwg yn dibynnu ar natur yr unigolyn, natur y gwaith a'r oriau gwaith yn ogystal â chyfanswm yr oriau a weithiwyd, e.e. gwaith gyda'r nos, gwaith dros y penwythnos, gwaith yn ystod y gwyliau. Fel rheol mae myfyrwyr amser-llawn sy'n gweithio mwy na 15 awr yr wythnos yn llawer mwy tebygol o gael problemau wrth reoli eu hastudiaethau. Diwedd y gân yw ei bod yn rhaid i fyfyrwyr sy'n gweithio'n rhan-amser sicrhau eu bod yn gallu mynd i'r holl ddosbarthiadau gofynnol, eu bod yn gallu cadw mewn cysylltiad agos â'r arolygwr, a'u bod yn gallu bodloni'r dyddiadau cau ar gyfer asesiadau a chyflwyno gwaith.
- Efallai fod gan fyfyrwyr rhan-amser waith yn barod a bydd modd iddynt barhau yn y swydd honno os ydynt yn gallu bodloni gofynion y cwrs.
- Gall myfyrwyr sydd wedi cwblhau eu cyfnod cofrestru ac sydd yn y cyfnod o ysgrifennu eu PhD gael gwaith amser-llawn ond dylent ganiatáu digon o amser i gwblhau eu traethodau ymchwil. Ni fydd yr UKRI byth yn caniatáu estyniadau yn seiliedig ar bwysau gwaith. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu ymroi digon o amser i'w hymchwil os ydynt wedi cofrestru i gwblhau eu traethawd ymchwil o fewn tair blynedd. Mae'n rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol barchu telerau eu fisa astudio yn ystod y cyfnod ysgrifennu.

## 16. Dysgu a Gweithgareddau Academaidd Eraill

16.1 Gall myfyrwyr ymchwil uwchraddedig ddysgu israddedigion neu ymgymryd â dyletswyddau academaidd eraill (e.e. cynorthwyydd golygyddol, trefnu cynadleddau, cynorthwyydd ymchwil) cyhyd ag nad yw hynny'n ymyrryd gyda chyflawniad effeithiol eu rhaglen ymchwil. Mae profiad dysgu o'r fath o werth i raddedigion o ran datblygiad eu gyrfa yn y tymor hir, ac yn debygol o gyflenwi agweddau eraill ar hyfforddiant ymchwil.

16.2 Bydd y Brifysgol a'r Adrannau yn rhoi cymorth arall i fyfyrwyr sy'n cyfrannu trwy ddysgu neu'n gwneud cyfraniad academaidd arall. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ffurfiol a phenodi aelod o staff academaidd (e.e. Cynullydd Modiwlau) i weithio gyda'r myfyriwr a rhoi cyngor a chyfarwyddyd.

Nid yw uwchraddedigion sy'n dysgu yn gyfrifol am gynllunio na gweinyddu modiwlau yn gyffredinol. Dylai unrhyw waith marcio ac asesu a gyflawnir gan uwchraddedigion gael ei fonitro'n briodol

a’i safoni, yn enwedig yng nghyswllt gwaith israddedig sy’n cyfrif tuag at ddosbarth y radd.

16.3 Bydd y Brifysgol yn darparu yswiriant i ddigolledu athrawon uwchraddedig yn erbyn atebolrwydd cyfreithiol.

16.4 Mae’r Brifysgol yn cadw at egwyddorion Siarter Uwchraddedigion NUS/UCU o ran dewis, talu a chefnogi uwchraddedigion sy’n dysgu ac mae, mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, wedi datblygu ei Siarter Cyflogaeth ei hun i Uwchraddedigion Ymchwil.

## 17. Eiddo Deallusol, Cyhoeddi, Ymddygiad Academaidd Annerbyniol a Llên-Ladrad

17.1 Dylai Adrannau sicrhau bod myfyrwyr ymchwil uwchraddedig yn ymwybodol o reolau cyfreithiol sy’n ymwneud â hawliau eiddo deallusol a chyfrinachedd gwybodaeth a allai godi o’u gwaith ymchwil. Os bydd hawliau eiddo deallusol yn cael eu cynhyrchu gan yr ymchwil, dylai safle’r Brifysgol neu drydydd person gael ei ystyried i’r graddau y gall y naill neu’r llall fod wedi darparu nawdd ariannol neu offer a chyfleusterau eraill. Dylid dod i gytundeb eglur ynghylch materion sy’n ymwneud ag eiddo deallusol a chyfrinachedd cyhyd â phosibl ar ddechrau’r ymchwil. Mae cyngor am faterion eiddo deallusol i’w gael gan yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi.

17.2 Mae’n amod mynediad i’r holl raglenni uwchraddedig y bydd polisi’r Brifysgol ar Hawliau Eiddo Deallusol yn gymwys. I weld y polisi, ewch i: https://www.aber.ac.uk/cy/hr/policy-and-procedure/au-and-bu/intellectual-property/.

17.3 Lle bo’n briodol, dylai’r Brifysgol gytuno i gymryd cyfrifoldeb dros warchod, datblygu ac/neu ymelwa ar hawliau eiddo deallusol a gynhyrchir gan ymchwil uwchraddedig, gan gynnwys patentu, trwyddedu a marchnata canlyniadau’r ymchwil. Yn y fath achosion, bydd y Brifysgol yn rhannu’r gwir enillion a gyfyd o’r fath ymelwa gyda’r myfyriwr ac unrhyw berson arall a fu’n gysylltiedig â chynhyrchu’r gwaith dan sylw.

17.4 Mae’r Brifysgol yn rheolwr data o dan y ddeddfwriaeth dioeglu data bresennol ac mae’n rhaid i fyfyrwyr gydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU a Deddf Diogelu Data 2018 y DU. Ceir rhagor o wybodaeth ar: https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/dp/ a cheir cyngor penodol gan Swyddog Diogelu Data PA. Gellir cysylltu â’r Swyddog drwy’r dudalen hon.

Ymddygiad Academaidd Annerbyniol: https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/uap/. Mae’r Brifysgol yn cydnabod sawl catergori o Ymddygiad Academaidd annerbyniol, gan gynnwys llên-ladrad. Diffinir llên-ladrad fel defnyddio gwaith rhywun arall a’i gyflwyno fel eich gwaith eich hun, boed hynny’n fwriadol neu’n anfwriadol. Go brin bod unrhyw ymdrech ddeallusol yn gwbl wreiddiol. Mae hyd yn oed y meddyliau mwyaf gwreiddiol yn dibynnu ar syniadau a chanfyddiadau eu rhagflaenwyr. Yn wir, un o’r meini prawf ar gyfer cwrdd â’r safonau angenrheidiol ar gyfer dyfarnu gradd ymchwil yw’r gallu i ymberthnasu canlyniadau eich astudiaeth eich hun â’r corff o wybodaeth gyffredinol o fewn y maes. Yr hyn na ddylech ei wneud yw ceisio ffugio bod gwybodaeth a data pobl eraill yn eiddo i chi. Dylai cyfeirnodi a chymryd nodiadau’n gywir, a threfniadau llyfryddiaethol a chyfeiriol cadarn, sicrhau bod yr arholwyr yn derbyn eich gwaith fel eich gwaith chi eich hun. Bydd arolygwyr ar gael bob amser i roi cyngor ynghylch hyn, ac mae’r rhaglen hyfforddiant ymchwil yn cynnwys rhannau penodol ar sut i gyfeirnodi ac ysgrifennu llyfryddiaeth. Bydd gwaith drafft a gyflwynir i arolygwr nad yw’n bodloni safonau ymddygiad academaidd priodol yn cael ei drin yn y lle cyntaf gan yr arolygwr sy’n rhoi adborth ar y gwaith drafft. Os yw myfyriwr yn ceisio cyflwyno gwaith rhywun arall fel ei waith/gwaith ei hun yn systematig, caiff y myfyriwr ei gyfeirio/chyfeirio at y Pwyllgor Monitro Ymchwil ac efallai ei

atal/hatal rhag parhau â'r rhaglen radd. Ym mhob achos, bydd y camau y dylai'r myfyriwr a'r arolygwr eu cymryd, yn cael eu cyfathrebu'n glir i'r myfyriwr yn ysgrifenedig ynghyd â chanlyniadau posibl peidio â chydymffurfio. Bydd yr adran yn cadw cyfres lawn o ddogfennau am y broblem a'r canlyniad.

Mae gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer ymchwilio i honiadau ffurfiol o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol mewn gwaith a gyflwynir i'w asesu wedi'u hamlinellu yn y Rheoliad ac yn Adran 3.6 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd. https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/taught-schemes/

I weld sut mae'r Brifysgol yn ymdrin â chamymddygiad mewn perthynas â gwaith ymchwil, gan gynnwys ymddygiad annheg a llên-ladrad, gweler https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/uap/.

17.5 Mae gan yr ymgeisydd hawl i gyhoeddi'r holl waith neu ran o'r gwaith a wnaethant yn ystod cyfnod eu cofrestriad, cyn iddynt gyflwyno'r gwaith yn llawn, neu fel rhan o draethawd ymchwil, a derbyn nad ydynt wedi nodi yn unrhyw le yn y gwaith cyhoeddedig fod y gwaith yn cael ei ystyried am radd uwch. Gall gwaith cyhoeddedig o'r fath gael ei gynnwys wedyn yn y traethawd ymchwil a gyflwynir i'w arholi.

## 18 Moeseg ac Uniondeb

18.1 Er mwyn i'r Brifysgol allu cynnal ac adeiladu ar ei phortffolio ymchwil llwyddiannus, mae'n bwysig ein bod ni oll yn ymroddedig i gynnal y safonau uchaf yn ein hymchwil, o ddylunio i ledaenu, a thrwy arddangos didwylledd, manwl gywirdeb ac uniondeb yn ein holl weithgareddau ymchwil.

I sicrhau ein bod yn parhau i fod yn arloesol ac uchelgeisiol ond eto'n gyfrifol a phroffesiynol o fewn y gymuned ymchwil, mae'r Brifysgol yn tanategu ei hymchwil gyda'r egwyddorion canllaw canlynol, sy'n rheoli'r holl ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth:

- Parch at hawliau, diogelwch a lles pob cyfranogwr dynol ac anifeiliaid;
- Parch at ddiwylliannau, gwerthoedd, traddodiadau a'r amgylchedd o'n cwmpas;
- Gonestrwydd, uniondeb a phroffesiynoliaeth bob amser ym mhob peth yr ydym yn ei wneud.

Mae ymddygiad moesegol yn berthnasol i bob disgyblaeth ac mae'n golygu paratoad, myfyrdod a chydnabyddiaeth briodol a rhagweithiol. Mae hefyd yn cynnwys rheolaeth barhaus o ystyriaethau moesegol perthnasol a risgiau cysylltiedig. Nid yw ymddygiad moesegol yn cysylltu ei hun ag osgoi ymchwil risg- uchel ac felly ni ddylid ei ystyried fel rhwystr i'r canlyniad a ddymunir, ond yn hytrach fel proses hyrwyddol sy'n cyfoethogi.

Dylai myfyrwyr ymchwil nodi fod y Brifysgol yn credu ei bod hi'n bwysig iawn codi ymwybyddiaeth ymysg ymchwilwyr newydd o'r angen i ddatblygu methodolegau cadarn wrth ymchwilio a datblygu dealltwriaeth o arferion da. Ar ddechrau pob sesiwn academaidd, darperir *Hyfforddiant Rhagarweiniol ar Foeseg Ymchwil* i'r holl uwchraddedigion ymchwil newydd. Mae'n rhaid i'r holl fyfyrwyr ymchwil fynychu er mwyn sichrau eu bod yn gyfarwydd â'r materion cyffredinol sydd ynghlwm â hyn.

18.2 Ar ddechrau'r rhaglen astudio bydd adrannau'n asesu goblygiadau moesegol prosiectau ymchwil myfyrwyr a'u hadolygu'n rheolaidd yn rhan o'u gweithdrefnau monitro. **Ond, mae'n orfodol i fyfyrwyr ymchwil gael cymeradwyaeth foesegol briodol cyn dechrau casglu data.**

18.3 Mae'n rhaid i'r holl ymchwilwyr, fel isafswm, gwblhau asesiad ar- lein i gofrestru eu prosiect a nodi'r llwybr cymeradwyaeth foesegol fwyaf priodol. Ceir rhagor o wybodaeth ar www.aber.ac.uk/ethics Gall y llwybr asesu ar-lein nodi rhai prosiectau risg isel penodol fel rhai sy'n addas i gael cymeradwyaeth gan yr adran. Mae'n rhaid i bob prosiect arall gael cymeradwyaeth gan un o'r canlynol:

- Panel Moeseg Ymchwil
- Y Corff Adolygu Moeseg a Lles Anifeiliaid (AWERB)

- Grŵp Nawdd (cyn gwneud cyflwyniad allanol i'r Awdurdod Ymchwil Iechyd)

**Nid yw cael eich derbyn ar raglen gradd ymchwil yn awgrymu cymeradwyaeth foesegol i'r fethodoleg ymchwil, y bydd yn rhaid ei gael cyn y gellir dechrau casglu data neu weithgaredd perthnasol eraill. Bydd angen cymeradwyaeth hefyd ar gyfer unrhyw newidiadau dilynol i'r fethodoleg. Mae'r brifysgol yn cefnogi pob myfyriwr i gael cymeradwyaeth ond gallai hyn olygu gwneud newidiadau i'r prosiect, a dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol o hynny. Gall data neu dystiolaeth arall nad yw'n cael ei gasglu'n foesegol gael ei ddileu ac efallai na ellir ei gynnwys yn y traethawd ymchwil. Disgwylir ymddygiad moesegol gan yr holl staff a myfyrwyr. Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a sicrhau eu bod yn gweithredu'n iawn a gyda'r gymeradwyaeth angenrheidiol trwy gydol eu hymchwil.**

18.4 Dylai myfyrwyr ymchwil weithio'n agosach ac mewn da bryd â'u harolygwr a'r adran wrth asesu goblygiadau moesegol eu hymchwil â'r llwybr cymeradwyaeth sy'n debygol o fod ei angen.

18.5 Gall methu â chyflawni adolygiad moesegol priodol fod â goblygiadau difrifol a gallai olygu camymddwyn ymchwil yn unol â pholisi priodol y Brifysgol.

Edrychwch ar y Fframwaith a'r Polisi Moeseg ac Uniondeb Ymchwil (www.aber.ac.uk/ethics) i gael rhagor o wybodaeth am y prosesau cymeradwyaeth foesegol.

Mae croeso i fyfyrwyr gael cymorth a chyngor gan yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi drwy gysylltu ag ethics@aber.ac.uk

## 19. Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gwarchod iechyd a diogelwch myfyrwyr ymchwil ac eraill a effeithir gan ei gweithgareddau, ynghyd ag ansawdd yr amgylchedd, yn rhan hanfodol o'i gweithrediad ac yn un o gyfrifoldebau pennaf rheolwyr ar bob lefel. Mae'r wefan Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn darparu gwybodaeth am bolisi'r Brifysgol ar iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, hyfforddiant, gweithredu brys, ynghyd â rhestr o enwau cyswllt. Gall eich Cydlynydd Iechyd a Diogelwch lleol ddarparu gwybodaeth bellach am bwyllgorau diogelwch yr adran a threfniadau lleol. Gweler **www.aber.ac.uk/cy/hse/** a gweler Rhan Un, adran 4 y ddogfen hon.

## 20. Myfyrwyr Anabl a Myfyrwyr a chanddynt Gyflyrau Iechyd a Chyflyrau Niwroamrywiol Cymhleth

20.1 Mae gan Brifysgol Aberystwyth ymrwymiad i gynnal a datblygu dysgu ac ymchwil o'r safon uchaf. Anelwn i sicrhau bod ein hadnoddau academaidd ar gael i bawb sy'n cyflawni ein gofynion mynediad ac i sicrhau bod myfyrwyr anabl a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd a chyflyrau niwroamrywiol cymhleth yn gallu manteisio'n deg ar bob agwedd ar ddarpariaeth y cwricwlwm, gan gynnwys darlithoedd, teithiau maes, lleoliadau gwaith ac asesiadau.

20.2 I gael gwybodaeth am yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael cysylltwch ag un o'n Hymgynghorwyr Hygyrchedd. Ceir manylion cyswllt a rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael ar y tudalennau gwe canlynol: https://www.aber.ac.uk/en/sscs/accessibility/

## 21. Myfyrwyr Ymchwil Rhan-Amser ac Allanol

21.1 Mae'r Brifysgol yn ystyried myfyrwyr amser llawn a rhan-amser fel aelodau cyfwerth o'i chymuned uwchraddedig. Mae'r Canllawiau hyn yr un mor berthnasol i'r ddwy garfan o fyfyrwyr (ac maent yn nodi lle mae'r rheoliadau yn wahanol ar eu cyfer). Serch hynny, mae rhai o'r trefniadau ar gyfer myfyrwyr allanol, boed yn fyfyrwyr amser llawn neu ran-amser, yn wahanol o reidrwydd. Mae'n werth pwysleisio rhai pwyntiau:

- er nad oes rhaid iddynt gymryd rhan yn y Rhaglen Datblygu Ymchwiliwr, mae'r Brifysgol yn annog

myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr amser llawn allanol sydd o fewn cyrraedd i Aberystwyth i wneud hynny;

- rhaid i fyfyrwyr rhan-amser ac amser-llawn allanol newydd fod yn bresennol pan fyddant yn cofrestru. Caiff myfyrwyr rhan- amser ac allanol sy'n dychwelyd gofrestru drwy'r post neu ar- lein;
- dylai myfyrwyr amser llawn a rhan-amser wneud trefniadau â'u harolygwyr, wedi'u goruchwylio gan yr adrannau, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu harolygu'n rheolaidd. Yn achos myfyrwyr rhan-amser nad ydynt yn byw yn Aberystwyth, a myfyrwyr allanol amser llawn, mae'n dra phwysig bod trefniadau effeithiol yn cael eu gwneud yn hyn o beth;
- mae mynediad i gyfleusterau llyfrgell a chyfrifiadurol yr un fath ar gyfer myfyrwyr amser llawn a rhai rhan-amser. Dylai myfyrwyr nad ydynt ar y campws ymgyfarwyddo â sut i gael mynediad o bell – gweler ein Cwestiwn Cyffredin ar gael mynediad i e-adnoddau oddi ar y campws. Hefyd gall myfyrwyr fod yn gymwys i gael mynediad cyfyngedig i gyfleusterau llyfrgelloedd eraill yng Nghymru a'r DU – gweler ein gweddalennau i gael manylion am y cynlluniau gwahanol.
- bydd y cyfleusterau sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser o fewn yr Adrannau yn amrywio yn ôl pa adnoddau y bydd Adrannau yn dewis eu dosrannu, ac efallai y byddant yn wahanol i'r rheini sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn.

## Atodiad 1

## Trefniadau mewn Arholiadau *Viva Voce* ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil

trafodaeth am y traethawd ymchwil, ei strwythur, y rhannau hynny.

Y Bwrdd Arholi

1. Bydd y bwrdd arholi yn cynnwys Cadeirydd, Arholwr Mewnol ac Arholwr Allanol. Bydd ail arholwr allanol yn cymryd lle'r arholwr mewnol pan fo'r ymgeisydd yn sefyll yr arholiad o dan reoliadau'r staff. Y Cadeirydd fel arfer fydd Pennaeth Adran yr ymgeisydd, er y gallant ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i aelod hŷn o'r staff.

2. Drwy wahoddiad y Cadeirydd, a chyda chaniatâd ymlaen llaw gan yr ymgeisydd, gall yr arolygwr fod yn bresennol yn y *viva* fel cynghorwr, ond ni chaiff siarad oni wahoddir ef i wneud hynny gan y Cadeirydd.

3. Mae pwrpas y *viva* wedi ei egluro'n llawn yn y canllawiau a anfonir i'r arholwyr. Fe'i nodir hefyd yng Nghanllawiau'r Brifysgol i Fyfyrwyr Ymchwil Uwchraddedig sy'n cael eu dosbarthu i'r holl fyfyrwyr pan fyddant yn cofrestru. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r ymgeisydd a'r arolygwr fod yn gyfarwydd â'r pwrpas hwn. Mae'r *viva* yn rhan hanfodol o'r arholiad ar gyfer gradd ymchwil, a bydd perfformiad yr ymgeisydd yn y *viva* yn cael ei ystyried law yn llaw â'r traethawd ymchwil ysgrifenedig wrth ddod i benderfyniad terfynol ynglŷn â'r radd.

Y Trefniadau

4. Fel rheol, cynhelir y *viva* yn Adran yr ymgeisydd o fewn y Brifysgol. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol, y gellir cynnal y *viva* y tu allan i'r Brifysgol. Dylid hysbysu Ysgol y Graddedigion mewn achosion o'r fath. Bydd pawb yn bresennol onibai y cytunir gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion y ceir cymryd rhan o bell trwy ddulliau electronig,

5. Mae'r holl drefniadau ar gyfer y *viva* yn cael eu gwneud drwy'r Adran dan sylw. Mater i'r Adran yw pa un ai a ydynt yn cael eu trefnu'n bennaf drwy'r arolygwr, y cydlynydd uwchraddedig, neu'r arholwr mewnol.

6. Fel rheol, cynhelir y *viva* o fewn 12 wythnos i'r traethawd ymchwil gael ei anfon i'r arholwyr gan y Brifysgol. Mae'r amser yma yn caniatáu i'r arholwyr ystyried y traethawd ymchwil yn fanwl, a hefyd i sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn cael ei roi dan anfantais gan gyfnod estynedig rhwng cyflwyno'r traethawd a'i amddiffyn.

Y Gweithdrefnau

7. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau y glynir wrth reoliadau'r Brifysgol yn ystod y *viva*.

8. Dylai'r arholwyr gyfarfod cyn y *viva* i drafod eu hadroddiadau cyntaf ar y traethawd ymchwil, a chan dynnu ar y drafodaeth hon dylent nodi'r rhannau o'r traethawd ymchwil yr hoffai pob arholwr eu trafod â'r ymgeisydd.

9. Dylai'r Cadeirydd gychwyn yr arholiad drwy gyflwyno'r arholwyr i'r ymgeisydd cyn mynd ati wedyn i wneud i'r ymgeisydd deimlo'n gartrefol ac egluro fformat y *viva*.

10. Bydd yr arholwyr yn gofyn cyfres o gwestiynau er mwyn hybu

sydd angen eglurhad pellach, a’r materion hynny y carent eu harchwilio â’r ymgeisydd.

11. Ar ddiwedd y *viva*, dylai’r Cadeirydd ofyn i’r ymgeisydd adael yr ystafell fel y gall yr arholwyr drafod eu penderfyniad. Ar yr adeg yma, cânt godi materion sy’n ymwneud â’r traethawd ymchwil a/neu’r *viva* gyda’r arolygwr. Gallant ofyn i’r arolygwr adael yr ystafell fel y gallant ddod i’w penderfyniad terfynol, neu gallant ddod i benderfyniad yng ngŵydd yr arolygwr.

Y Penderfyniad

12. Bydd yr arholwyr yn gwneud penderfyniad yn unol â rheoliadau’r arholiad fel y’u nodir ar y Ffurflen Canlyniad ac Adroddiad. Wedi i’r arholwyr ddod i benderfyniad, bydd y penderfyniad hwnnw yn derfynol ac ni ellir ei newid ar ôl i’r Ffurflen Canlyniad ac Adroddiad gael ei harwyddo gan y ddau arholwr a’r Cadeirydd.

13. Pan fo’r arholwyr wedi cytuno ar benderfyniad bydd y Cadeirydd yn trefnu i’r ymgeisydd ddod yn ôl i’r ystafell. Bydd y Cadeirydd yn hysbysu’r ymgeisydd yn glir ynghylch y penderfyniad ar lafar ac mewn ffurflen adroddiad interim y dylai’r myfyriwr a’r cadeirydd ei llofnodi.

14. Os yw’r arholwyr yn fodlon bod yr ymgeisydd, yn gyffredinol, wedi cyrraedd y safon sy’n angenrheidiol ar gyfer y cymhwyster, ond o’r farn bod y traethawd ymchwil angen mân newidiadau nad ydynt yn ddigon sylweddol i ofyn i’r ymgeisydd ailgyflwyno’r gwaith, dylent hysbysu’r ymgeisydd ynghylch y newidiadau a’r cywiriadau sydd eu hangen. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod y cyngor yma’n cael ei drosglwyddo i’r ymgeisydd mewn modd boddhaol, ac i ddweud a fydd yr arholwr mewnol a/neu’r arholwr allanol angen gweld y fath newidiadau, a faint o amser a ganiateir ar gyfer eu cwblhau. Rhaid cynnwys hyn yn y Ffurflen Adroddiad Interim.

15. Pan fo’r arholwyr yn argymell ailgyflwyno, mae angen iddynt roi arweiniad i’r ymgeisydd ynghylch diffygion y traethawd a/neu’r perfformiad yn y *viva*. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod y cyngor hwn yn cael ei drosglwyddo i’r ymgeisydd mewn modd boddhaol, a bod yr ymgeisydd yn llwyr ddeall penderfyniad y bwrdd, ac yn ymwybodol o faint o amser sydd ganddo/ganddi i ailgyflwyno. Dyletswydd y myfyriwr wedyn yw sicrhau bod y traethawd sy’n cael ei ailgyflwyno yn bodloni’r pwyntiau hynny yn glir.

16. Os yw’r ymgeisydd yn cael ei arholi ar gyfer gradd PhD, ond yn ennill gradd MPhil, bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr ymgeisydd yn llwyr ddeall pam y gwnaethpwyd y penderfyniad hwn.

17. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr holl waith papur angenrheidiol yn cael ei gwblhau, a bod pob ffurflen yn cael ei llenwi a’i dychwelyd i Ysgol y Graddedigion yn y modd priodol.

18. Os oes angen unrhyw gywiriadau neu newidiadau, dylai ymgeiswyr gyflwyno copi electronig o’r traethawd ymchwil wedi ei gywiro i’w Hadran o fewn yr amser a nodwyd gan y Bwrdd Arholi.


# Atodiad 2

## Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr

Yn 2001 cyhoeddodd y Cynghorau Ymchwil Gyd-Ddatganiad Sgiliau yn disgrifio’r sgiliau y dylai myfyrwyr ymchwil fod yn meddu arnynt neu’n eu datblygu. Mae’r rhain yn cynnwys ystod o sgiliau trosglwyddadwy yn ychwanegol at y sgiliau ymchwil sy’n gysylltiedig â chwblhau traethawd hir. Credir bod datblygiad y sgiliau hyn yn rhan hanfodol o’r profiad o fod yn uwchraddedigion ymchwil. Y mae’r Datganiad Datblygu Ymchwilwyr, a’r Fframwaith 2010 cysylltiedig, yn esblygiad o’r JSS ac yn dangos ystod yr wybodaeth, y sgiliau, yr ymddygiad a’r nodweddion personol sydd eu hangen, ym marn y Cynghorau Ymchwil, i fod yn ymchwilydd ac yn weithiwr effeithiol mewn byd sy’n cael ei yrru gan gynhyrchu gwybodaeth a dyfeisgarwch. Gall y sgiliau hyn fod yn bresennol wrth ddechrau ar radd ymchwil, gallant gael eu dysgu yn benodol, neu eu datblygu yn ystod cwrs yr ymchwil.

Y mae’r Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr yn disgrifio’r sgiliau a’r nodweddion sydd gan ymchwilwyr llwyddiannus ac yn eu hannog i anelu am ragoriaeth trwy lefelau uchel o ddatblygiad. Y mae’r fframwaith yn ddull cynhwysfawr o wella gyrfaoedd ymchwilwyr. Cafodd ei ddatblygu gan ymchwilwyr ar gyfer ymchwilwyr, mewn ymgynghoriad â chyflogwyr academaidd ac anacademaidd.

Y mae’r Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr yn sail i Raglen Ymchwilwyr
Aberystwyth ac mae’r cyrsiau a gynigir wedi eu grwpio yn ôl y sgiliau a nodir ym Meysydd y Fframwaith Datblygu.



# Atodiad 3

**Y Berthynas rhwng Uwchraddedigion Ymchwil a'u Harolygwyr, a Dulliau Newid**

Mae'r berthynas rhwng ymchwilydd uwchraddedig a'i dîm arolygu, yn enwedig y prif arolygydd, yn holl bwysig o ran datblygiad y prosiect a'r ymchwilydd. Mae'r Cod Ymarfer i Uwchraddedigion Ymchwil yn nodi cyfrifoldebau pawb sy'n rhan o'r berthynas hon: https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/forms-handbooks/

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r berthynas yn un gref, â'r arolygydd yn ogystal â'r myfyriwr yn gweld gwerth ynddi, a byddant yn cadw mewn cyswllt ymhell wedi i'r radd gael ei chwblhau. Mae'n beth arferol eu gweld yn parhau i gydweithio a chyhoeddi, yn ogystal â dod yn gyfeillion. Fan lleiaf, rydym yn disgwyl bod trefniadau arolygu proffesiynol ac effeithiol ar waith i gefnogi'r ymchwilydd trwy gydol eu hastudiaethau.

Wrth bwysleisio gwerth perthynas lwyddiannus, rhaid i ni gydnabod difrifoldeb posibl problemau o ran arolygu. Mae angen i ymchwilwyr uwchraddedig wybod y gallant dynnu sylw'r Brifysgol at y problemau hyn, ac y bydd y Brifysgol yn ceisio canfod atebion sy'n cefnogi'r myfyriwr a'r arolygydd. Dyma rai egwyddorion sy'n berthnasol yma:

1. Cyfrifoldeb y brifysgol yw pennu timau arolygu priodol sy'n rhoi cefnogaeth arolygu barhaus hyd at yr adeg pan fo'r radd wedi'i chwblhau. Mae'n bosibl y bydd angen i'r brifysgol newid arolygwyr yn sgil trosiant staff, llwyth gwaith, absenoldeb salwch, neu amgylchiadau amrywiol eraill. Nid oes gan fyfyrwyr yr hawl i benderfynu pwy fydd yn eu harolygu. Pan fydd myfyriwr yn cael ei ariannu gan noddwr megis partneriaeth hyfforddiant doethurol UKRI sy'n golygu eu bod yn cael eu harolygu ar y cyd rhwng dwy brifysgol, bydd y bartneriaeth hefyd yn cyfrannu at ddewis yr arolygwyr. Fodd bynnag, bydd y brifysgol yn ystyried barn myfyrwyr yn llawn ac yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr yn fodlon ar eu harolygwyr.

2. Ni ellir goddef bwlio, aflonyddu nac unrhyw ymddygiad rhywiol amhriodol a bydd y Brifysgol yn cymryd camau ar unwaith os tynnir sylw at yr ymddygiadau hyn. Ni ellir goddef unrhyw fygwth ychwaith a dylid rhoi gwybod am unrhyw fygythiadau gan arolygwyr i ddileu cyllid neu andwyo gyrfa ymchwilydd. Mae polisi Urddas a Pharch y Brifysgol ar gyfer ei myfyrwyr yn disgrifio sut i roi gwybod am bryderon a'r camau y gellir eu cymryd yn erbyn y rhai sy'n torri'r polisi: https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/studentsupport/resources/dignityandrespect/cod-myfyrwyr-ar-urddas-a-pharch.pdf

3. Bydd modd tynnu sylw at rai materion yn uniongyrchol gyda'r arolygydd, ac yna'u trafod a'u datrys. Anogir ymchwilwyr uwchraddedig i wneud hyn os ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.

4. Mae cyfrifoldeb ar ymchwilwyr uwchraddedig, yn ogystal ag arolygwyr, i wneud i'r berthynas rhyngddynt weithio. Er mai'r arolygwyr sy'n bennaf cyfrifol, mae angen i fyfyrwyr ymddwyn yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yng Nghod Ymarfer y Brifysgol i Uwchraddedigion Ymchwil a'i pholisïau ar urddas a pharch (https://www.aber.ac.uk/en/sscs/student-dignity-respect/). Ni ddylai arolygwyr orfod dioddef ymddygiad afresymol a gallant gyflwyno cwyn neu wneud cais i gael eu rhyddhau o'r arolygaeth os digwydd hynny.

5. Ni ddylai ymchwilwyr uwchraddedig fyth deimlo na allant grybwyll problemau o ran arolygu oherwydd nad ydynt yn credu y byddai arolygydd arall ar gael. Os oes angen, gallwn drefnu arolygaeth allanol.

6. Pa mor gyfeillgar bynnag yw'r berthynas rhwng arolygydd a myfyriwr, rhaid cadw pellter proffesiynol priodol bob amser.

Os yw myfyriwr yn pryderu bod anawsterau yn eu perthynas â'u harolygydd yn effeithio ar eu cynnydd neu eu lles, dylent deimlo y gallant wneud y pethau canlynol:

1. **Trafod** y sefyllfa yn gyfrinachol ac anffurfiol gyda staff yn eu hadran, lle bo modd. Fel arfer, cydlynydd uwchraddedigion ymchwil yr adran fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf. Os mai'r person hwnnw yw'r arolygydd y mae'r myfyriwr yn cael anawsterau ag ef, neu os yw'r myfyriwr o'r farn bod yna wrthdaro buddiannau, neu y byddai'n well ganddynt siarad â rhywun arall, y tu allan i'r adran o bosibl, gellid cysylltu â'r unigolion canlynol: aelod arall o'r tîm arolygu; Pennaeth yr Adran; y Deon Cysylltiol sy'n gyfrifol am Ymchwil; Pennaeth Ysgol y Graddedigion neu aelodau uwch eraill o staff yr ysgol; neu'r

Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr. Yn dilyn y drafodaeth hon, efallai y bydd y myfyriwr yn teimlo eu bod yn gallu parhau heb gymryd camau pellach neu efallai y gallant ddefnyddio rhai o'r awgrymiadau er mwyn ymdopi â'r sefyllfa. Mae'n bosibl y gellid cynnal rhywfaint o gyfryngu er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a sicrhau bod pawb yn fodlon.

2. **Gofyn am gael newid arolygydd**: Mae yna lawer o resymau pam y gallai'r myfyriwr ofyn am newid, gan gynnwys y ffaith bod y prosiect wedi esblygu i gyfeiriad sy'n fwy addas i aelod arall o staff. Dylai myfyrwyr gyflwyno ceisiadau i newid y tîm arolygu yn ysgrifenedig (mae e-bost yn ddigonol) a dylent gael ymateb ysgrifenedig. Bydd cydlynydd uwchraddedigion ymchwil yr adran yn ystyried y cais, gan sicrhau mai cynnydd a lles y myfyriwr sydd wrth graidd y broses o wneud penderfyniad, a bydd yn ceisio caniatáu'r cais. Os caiff ei gymeradwyo, dylid ffurfioli'r newid gan ddefnyddio'r cofnod 'MyPGR'. Os nad yw'n cael ei gymeradwyo, dylid rhoi esboniad ysgrifenedig. Ni fydd newidiadau'n bosibl bob amser, ond os yw'n amlwg na all y berthynas â'r arolygydd presennol barhau oherwydd ymddygiad yr arolygydd, rhaid dod o hyd i un newydd. Os yw ymddygiad y myfyriwr neu'r aelod o staff wedi bod yn amhriodol, mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau pellach.

3. **Uwchgyfeirio:** Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon â phenderfyniad gallant dynnu sylw Pennaeth yr Adran at y mater, a bydd yn cael ei ystyried ymhellach. Os mai'r cydlynydd uwchraddedigion ymchwil yw eu harolygydd, dylai'r myfyriwr fynd at bennaeth yr adran yn y lle cyntaf; yna dylid uwchgyfeirio'r mater at y Deon Cysylltiol ar gyfer Ymchwil yn eu Cyfadran. Gall myfyrwyr hefyd siarad â Phennaeth Ysgol y Graddedigion i gael cyngor. Mae trefn gwyno'r myfyrwyr yn caniatáu i fyfyrwyr wneud cwyn ffurfiol os teimlant nad aethpwyd i'r afael â'r mater mewn ffordd foddhaol:

   https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/complaints/